

Ymgartrefu yng Nghymru- Bywyd ar gyfer ymfudwyr BN(O) o Hong Kong ers cyrraedd



Sin Yi Cheung

Charlotte Brookfield

April 2026



Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru
Wales Strategic Migration Partnership



Cydnabyddiaeth

Yr Awduron

Mae'r [Athro Sin Yi Cheung](#) yn Athro Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, ac yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae'n gymdeithasegydd meintiol sy'n arbenigo mewn ymfudo, integreiddio ffoaduriaid a mewnfudwyr, anghydraddoldebau ethnig a chrefyddol, cymdeithaseg addysg a haenau cymdeithasol. Mae ei hymchwil wedi bod yn hynod ddylanwadol ar gyfer yr astudiaeth o gosbau ethnig yn y farchnad lafur, ac mae ei dadansoddiad o unig Arolwg Hydredol y DU ar Ffoaduriaid Newydd wedi cael effaith sylweddol ar bolisi, gan lywio diwygiad 2019 y Swyddfa Gartref o'r Dangosyddion Integreiddio yn uniongyrchol. Mae'n brif olygydd y cyfnodolion *Journal of Social Policy* a *Frontiers in Sociology - Race and Ethnicity*. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Gweithredu Fframwaith Integreiddio Mudwyr Llywodraeth Cymru ac yn gydweithiwr hirdymor gyda Phartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru.

Mae [Dr Charlotte Brookfield](#) yn Ddarllenydd yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys archwilio dulliau arloesol a diddorol ar gyfer addysgu mathemateg ac ystadegau. Mae Charlotte hefyd wedi cydweithio ar brosiectau ymchwil yn archwilio rhesymau dros ddysgu Cymraeg, yn ogystal ag ymchwil cymharol yn canolbwyntio ar weithwyr cymdeithasol yng Nghymru a Norwy. Arweiniodd ei hymrwymiad i addysgu cynhwysol at ennill gwobr Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol yn 2025. Mae Charlotte hefyd yn un o olygyddion yr *International Journal of Social Research Methodology*.

Cynnwys:

Cydnabyddiaeth.....	i
Yr Awduron.....	i
Rhestr o Dablau a Ffigurau	ii
Crynodeb Gweithredol	i
1 Cyflwyniad	1
2 Cefndir a Chyd-destun	1
3 Dulliau a Chanlyniadau	2
4 Canfyddiadau'r Arolwg.....	4
4.1 Demograffeg	4
4.2 Statws priodasol/partneriaeth a strwythur y teulu	6
4.3 Tai a Llety	7
4.4 Addysg a Chyflogaeth.....	8
4.5 Sgiliau a Dosbarthiadau Iaith.....	14
4.6 Statws a Phryderon Iechyd.....	20
4.7 Boddhad gyda Bywyd a Mynediad at Wasanaethau	27
4.8 Ofn Trosedd.....	32
4.9 Rhesymau dros fudo a Bwriad i Ymgartrefu	39
5 Goblygiadau Polisi.....	43
6 Cyfeiriadau.....	47
7 Atodiadau	52

Rhestr o Dablau a Ffigurau

Tabl 4.1.1: Rhyw yr ymatebwyr	4
Tabl 4.1.2: Oedran yr ymatebwyr.....	5
Tabl 4.1.3: Crefydd yr ymatebwyr.....	5
Tabl 4.1.4: Hunaniaeth Genedlaethol yr ymatebwyr	6
Tabl 4.2.1: Statws priodasol yr ymatebwyr.....	6
Tabl 4.2.2: Nifer y plant	6
Tabl 4.3.1: Daliadaeth tai yr ymatebwyr	7
Tabl 4.3.2: Nifer y bobl yn yr aelwyd.....	7
Tabl 4.4.1: Y cymhwyster addysgol uchaf sydd gan yr ymatebwyr.....	8
Tabl 4.4.2: Statws swyddi yr ymatebwyr.....	8
Tabl 4.4.3: Dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr	9
Tabl 4.4.4: Dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr cyflogedig.....	10
Tabl 4.4.5: Sector diwydiannol gwaith yr ymatebwyr	10
Tabl 4.4.6: Math o sefydliad nad yw'n un preifat.....	13
Tabl 4.5.1: Beth mae ymatebwyr wedi'i wneud i geisio gwella eu Saesneg	17
Tabl 4.5.2: Beth mae ymatebwyr wedi'i wneud i geisio gwella eu Cymraeg.....	18
Tabl 4.6.1: Statws iechyd cyffredinol a adroddir gan yr unigolyn	20
Tabl 4.6.2: Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu'r ymatebwyr wrth wneud gweithgareddau cymedrol....	22
Tabl 4.6.3: Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu'r ymatebwyr wrth ddringo sawl rhes o risiau	22
Tabl 4.6.4: Iechyd corfforol a gweithgareddau dyddiol	22
Tabl 4.6.5: Problemau emosiynol a gweithgareddau dyddiol.....	24
Tabl 4.6.6: Teimlo'n isel.....	26
Tabl 4.6.7: Amhariad corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd hirdymor	26
Tabl 4.9.1: Bwriadau symud	40
Tabl 4.9.2: Nifer y lleoedd yr oedd cyfranogwyr wedi byw ynddynt yn y DU	40
Tabl 4.9.3: Cyrchfan gyntaf yn y DU	41
Tabl 4.9.4: Bwriadu aros yn y gyrchfan gyntaf	41
Ffigur 4.1.1: Rhyw yr ymatebwyr	4
Ffigur 4.4.1: Ymatebwyr yn chwilio am swydd arall.....	12
Ffigur 4.4.2: Rheswm dros beidio â chael swydd sy'n cyd-fynd â sgiliau a phrofiad	13
Ffigur 4.5.1: Sgiliau iaith Saesneg yr ymatebwyr	15
Ffigur 4.5.2: Sgiliau iaith Saesneg gyda demograffeg.....	16
Ffigur 4.5.3: Sgiliau iaith Saesneg gyda demograffeg (parhad)	17
Ffigur 4.5.4: Rhesymau dros beidio â mynychu dosbarthiadau Saesneg	18
Ffigur 4.5.5: Rhesymau dros beidio â mynychu dosbarthiadau Cymraeg.....	19
Ffigur 4.6.1: Statws iechyd cyffredinol yn ôl demograffeg	21
Ffigur 4.6.2: Statws iechyd cyffredinol yn ôl gweithgaredd economaidd a chyflogaeth	21
Ffigur 4.6.3: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i iechyd corfforol a demograffeg	23
Ffigur 4.6.4: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i iechyd corfforol gyda statws economaidd a chyflogaeth	23

Ffigur 4.6.5: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i broblemau emosiynol yn ôl demograffeg	25
Ffigur 4.6.6: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i broblemau emosiynol yn ôl gweithgarwch economaidd a chyflogaeth	25
Ffigur 4.7.1: Boddhad yr ymatebwr gyda bywyd yn gyffredinol	27
Ffigur 4.7.2: Sgôr gymedrig boddhad bywyd yn gyffredinol gyda demograffeg	28
Ffigur 4.7.3: Sgôr gymedrig boddhad bywyd yn gyffredinol gyda gweithgarwch economaidd a chyflogaeth	28
Ffigur 4.7.4: Mynediad at wasanaethau	29
Ffigur 4.7.5: Mynediad at wasanaethau gyda demograffeg	30
Ffigur 4.7.6: Mynediad at wasanaethau gyda statws economaidd a chyflogaeth	31
Ffigur 4.7.7: Rhesymau dros beidio â manteisio ar wasanaethau	32
Ffigur 4.7.8: Gallu cael mynediad at wasanaethau angenrheidiol.....	32
Ffigur 4.8.1: Ofn cerdded ar eich pen eich hun ar ôl iddi nosi	33
Ffigur 4.8.2: Teimlo'n ddiogel yn mynd allan wedi iddi nosi yn ôl demograffeg	35
Ffigur 4.8.3: Teimlo'n ddiogel yn mynd allan wedi iddi nosi yn ôl statws economaidd a chyflogaeth	35
Ffigur 4.8.4: Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd.....	36
Ffigur 4.8.5: Canran yr ymatebwyr sy'n poeni am fod yn ddioddefwr trosedd.....	36
Ffigur 4.8.6: Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd yn ôl demograffeg	38
Ffigur 4.8.7: Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd yn ôl statws economaidd a chyflogaeth	38

Crynodeb Gweithredol

Trosolwg

Mae'r arolwg dilynol hwn, a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac a ddarparwyd gan Brifysgol Abertawe, yn archwilio bywydau, anghenion, a phrofiadau integreiddio ymfudwyr Gwladolion Prydeinig (Tramor) (BN(O)) Hong Kong sy'n byw yng Nghymru, tair blynedd ar ôl agor y llwybr fisa BN(O). Mae'r astudiaeth yn ategu "Arolwg Croeso" 2022, gan gynnig y dystiolaeth ddiweddaraf ar newidiadau demograffig, patrymau ymgartrefu, canlyniadau'r farchnad lafur, lles, a mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Bu i 186 o ymatebwyr (prif ymatebwyr ac ymatebwyr eilaidd) gymryd rhan rhwng mis Awst a mis Hydref 2025.

Er nad yw'n gynrychiadol yn ystadegol (oherwydd recriwtio yn y gymuned), mae'r arolwg yn casglu profiadau rhan sylweddol o ymfudwyr Hong Kong, yn enwedig y rhai hynny sy'n weithgar mewn rhwydweithiau cymunedol, ac yn darparu arwyddion cadarn o'u heriau newidiol a chyfraniadau i Gymru.

Canfyddiadau Allweddol:

1. Demograffeg

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn ferched (56%), canol oed yn bennaf ac yn fwy addysgedig. Roedd 49% rhwng 45 a 64 oed, gyda dim ond 6.5% o dan 24 oed.

Roedd 83% yn ystyried eu hunain yn "bobl o Hong Kong", gyda nifer cynyddol hefyd yn ystyried eu hunain yn Brydeinig (32%) a Chymreig (16%).

Roedd 65% yn briod, ac roedd gan bron i hanner y rhieni ddau o blant.

Dywedodd bron i hanner fod ganddynt grefydd.

2. Tai a Phatrymau Ymgartrefu

Roedd 57% yn berchnogion tai (gyda 43% yn berchen ar eu heiddo'n gyfan gwbl), sydd yn uchel ar gyfer grŵp o ymfudwyr sydd newydd gyrraedd,

gan adlewyrchu parodrwydd ariannol ac asedau cyn mudo.

Roedd 40% yn rhentu'n breifat, yn aml heb fynediad at dai cymdeithasol oherwydd Dim Hawl Cyrchu Cronfeydd Cyhoeddus (DHCCC).

Caerdydd yw'r prif gyrchfan, yn cyfrif am 80% o leoliadau cyntaf yn y DU ac 87% o breswyliaidau presennol.

3. Addysg a Chyflogaeth

Roedd gan 60% radd neu gymhwyster ôl-radd - dwywaith cyfradd yr unigolion a anwyd yn y DU.

Ond eto, mae tangyflogaeth yn parhau i fod yn sylweddol:

14% yn ddi-waith ymysg yr ymatebwyr economaidd weithgar - teirgwaith yn fwy na chyfartaledd Cymru.

Dim ond 23% oedd wedi'u cyflogi mewn rolau proffesiynol neu reolaethol er gwaethaf cymwysterau uchel.

Mae'r rhwystrau a nodwyd yn cynnwys:

- Rhuglder yn y Saesneg (yn enwedig dros y ffôn).
- Diffyg rhwydweithiau a phrofiad gwaith yn y DU.
- Diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau.
- Gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, iaith, neu genedligrwydd.
- Roedd bron i hanner yr ymatebwyr cyflogedig yn chwilio am waith newydd, gan awgrymu anfodlonrwydd a chamgymariadau sgiliau.

4. Sgiliau Iaith

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweithredu'n dda wrth gyflawni tasgau bob dydd yn Saesneg, ond mae 19% yn profi anawsterau, yn enwedig wrth gyfathrebu'n ffurfiol neu dros y ffôn.

Dim ond 14% sydd wedi mynychu dosbarthiadau Saesneg; gyda llawer yn dibynnu ar adnoddau ar-lein.

Prin iawn yw'r unigolion sy'n dewis dysgu Cymraeg: nid oedd 55% wedi cymryd unrhyw gamau tuag at ddyysgu Cymraeg, gan nodi nad oedd llawer o angen i wneud hynny, blaenoriaethau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, neu ymwybyddiaeth gyfyngedig o ddosbarthiadau fel rhesymau dros beidio â gwneud.

5. Iechyd a Lles Emosiynol

Mae'r rhan fwyaf yn ystyried bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n weddol, gyda dim ond 7% yn nodi bod eu hiechyd yn wael.

Fodd bynnag, mae oedolion iau yn dangos y straen emosiynol uchaf, gyda lefelau uwch o orbryder, hwyliau isel, a llai o allu i weithredu o ddydd i ddydd - gan adlewyrchu tystiolaeth o drama yn gysylltiedig â digwyddiadau gwleidyddol Hong Kong.

Mae 17% yn adrodd am anabledd / salwch hirdymor - sy'n is na chyfartaledd y DU, gan gyd-fynd â'r "effaith ymfudwr iach".

6. Boddhad gyda Bywyd a Mynediad at Wasanaethau

Mae boddhad gyda bywyd yn gadarnhaol ar y cyfan:

- gyda 10% yn gwbl fodlon, 36% yn fodlon gan fwyaf, a 30% yn eithaf bodlon.
- Mae cyswllt cryf rhwng diweithdra a lles is.

Mae mynediad at wasanaethau yn eithaf uchel:

- Mae 68% wedi defnyddio gwasanaethau Meddyg Teulu, 45% wedi defnyddio ysbyty, a 47% defnyddio gwasanaethau deintydd. Dim ond 7% oedd heb ddefnyddio unrhyw wasanaethau cyhoeddus o gwbl.
- Prif rwystrau: anawsterau gydag apwyntiadau, cludiant annibynadwy, a sgiliau iaith Saesneg cyfyngedig mewn cyd-destunau ffurfiol.

7. Diogelwch ac Ofn Trosedd

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n weddol ddiogel neu'n ddiogel iawn (70%) wrth gerdded ar eu

pen eu hunain wedi iddi nosi, ond mae patrymau fesul rhyw yn amlwg: mae merched yn fwy tebygol o osgoi mynd allan wedi iddi nosi.

Mae poeni am drosedd yn gymedrol ar y cyfan ond yn fwyaf amlwg ymhlith:

- Merched
- Oedolion iau
- Ymfudwyr hynod addysgedig
- Unigolion economaidd weithgar

8. Rhesymau dros Fudo a Bwriadau i Ymgartrefu

Prif resymau dros fudo:

- 55% am resymau gwleidyddol
- 32% am resymau teuluol
- 25% addysg plant
- Dewiswyd Cymru oherwydd ei bod yn wlad groesawgar, ddiogel, a fforddiadwy o gymharu â rhanbarthau eraill yn y DU.

* 75% yn bwriadu aros yn y DU yn hirdymor, gyda dim ond 5% yn disgwyl dychwelyd i Hong Kong yn barhaol.

Goblygiadau Polisi

1. Cyflogaeth ac Integreiddio Economaidd

- Cryfhau llwybrau cydnabod ar gyfer cymwysterau a gafwyd dramor.
- Ehangu darpariaeth ESOL uwch, sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth.
- Gwella mynediad at broffesiynau sector cyhoeddus a rheoledig drwy fentora, rhaglenni pontio, a llwybrau recriwtio tryloyw.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy Waith Teg Cymru a mentrau ymgysylltu â chyflogwyr.

2. Tai

- Gwella mynediad at gyngor tai dibynadwy, canllawiau morgeisi, a safonau rhentu.

- Monitro effeithiau Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus a bregusrwydd posibl i ansefydlogrwydd tai wrth i arbedion leihau.

3. Darpariaeth Iaith

- Gwella argaeledd ESOL yn lleol, yn enwedig rhaglenni uwch a rhaglenni penodol i sector.
- Darparu cefnogaeth ymarferol ar gyfer tasgau bob dydd (siarad Saesneg dros y ffôn, llenwi ffurflenni).
- Ehangu llwybrau sensitif o ran diwylliant ar gyfer dysgu Cymraeg, gan gyd-fynd ag ethos Cenedl Noddfa.

4. Iechyd a Lles

- Blaenoriaethu cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer oedolion ifanc ac unigolion llai dysgedig.

- Cynyddu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ymwybyddiaeth o drawma mewn sefydliadau Addysg Bellach / Addysg Uwch a chymunedol.
- Gwella gwybodaeth iechyd amlieithog ac sy'n ymateb yn ddiwylliannol.

5. Mynediad at Wasanaethau ac Integreiddio Cymunedol

- Gwella cysylltedd cludiant a systemau apwyntiadau.
- Ehangu cymorth llywio digidol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
- Darparu gwybodaeth glir ynghylch diogelwch lleol, adrodd am droseddau, a phlismaona cymunedol.

1 Cyflwyniad

Ymhellach i'r Arolwg Croeso ar gyfer ymfudwyr BN(O) o Hong Kong yn 2022, roedd Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal ail arolwg i ddilyn bywydau'r ymfudwyr newydd hyn yng Nghymru. Y nod oedd casglu data demograffig-gymdeithasol ar bobl o Hong Kong yng Nghymru a chynnig cipolwg ar eu hanghenion a'r problemau a wynebir yn byw yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau'n llywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, gyda'r nod o dynnu rhwystrau i integreiddio yng nghymdeithas Cymru a Phrydain a sicrhau mynediad teg at wasanaethau.

2 Cefndir a Chyd-destun

Mae hanes hir yn gysylltiedig â mudo o Hong Kong i'r DU, yn dyddio'n ôl i ganol yr ugeinfed ganrif a'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd y tonnau ymfudo cyntaf wedi'u siapio gan gysylltiadau trefedigol a chaledi economaidd, ond roedd mudo mwy diweddar wedi'i gymell yn bennaf gan aflonyddwch gwleidyddol yn y 1960au ac ansicrwydd cyn dychwelyd yr hen drefedigaeth i Tsieina ym 1997. Arweiniodd y protestiadau yn erbyn y Gyfraith Estraddodi yn 2019 a Tsieina yn mabwysiadu'r Gyfraith Diogelwch Cenedlaethol yn 2020 at bryderon eang am hawliau sifil, rheol y gyfraith a diogelwch personol ar gyfer preswylwyr gwleidyddol weithgar neu ddemocrataidd yn Hong Kong, gan sbarduno mwy o ymfudiadau. Yn 2021, lansiodd Llywodraeth y DU y fisa Gwladolion Prydeinig (Tramor) (BN(O)), sef fisa arbennig fel llwybr dyngarol yn cynnig yr hawl i ddeiliaid statws BN(O) Hong Kong a'u teuluoedd weithio ac astudio yn y DU, preswyllo am hyd at 5 mlynedd a llwybr clir tuag at ddinasyddiaeth.

Ers agor y cynllun fisa ar 31 Ionawr 2021, mae bron i 180,000 o fisas Gwladolion Prydeinig (Tramor) wedi cael eu cymeradwyo, ac mae 163,400 o ymfudwyr o Hong Kong wedi cyrraedd y DU drwy'r cynllun hwn (Y Swyddfa Gartref, Mawrth 2025). Ar ôl cyrraedd y DU, nid oes unrhyw ystadegau swyddogol yn nodi ble mae'r ymfudwyr hyn yn ymgartrefu, nac ychwaith faint ohonynt sydd wedi symud i Gymru. Er iddynt gyrraedd yma ar sail ddyngarol, nid oes gan ymfudwyr BN(O) o Hong Kong hawl i gyllid cyhoeddus. Dyluniwyd yr Arolwg Croeso 2022 i archwilio eu profiadau cychwynnol o ran integreiddio. Cyhoeddwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad "Dechrau Bywyd Newydd yng Nghymru" ((Cheung and Foster, 2023), a oedd yn rhoi trosolwg o ddatblygiad hanesyddol y statws BN(O), yn amlinellu gofynion cymhwyso, ac yn mapio dosbarthiad daearyddol y dyfodiaid cyntaf yn 2021. Er y cynhaliwyd astudiaethau ychwanegol ar lefel y DU, nid oes unrhyw waith ymchwil dilynol wedi cael ei gynnal yn benodol yng Nghymru. Tair blynedd yn ddiweddarach, ychydig wyddom ni am sut mae profiadau pobl o Hong Kong yng Nghymru wedi newid. Mae canfyddiadau'r arolwg newydd hwn yn anelu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy gynnig mewnwediadau newydd i'w bywydau, heriau a llwybrau setlo ers cyrraedd.

3 Dulliau a Chanlyniadau

Addaswyd yr holiadur o'r arolwg panel Ymfudwyr Hong Kong BN(O)¹ a gynhaliwyd gan Goleg Prifysgol Llundain (UCL), gydag eitemau eraill wedi'u hychwanegu i gynnwys nodweddion penodol i gyd-destun Cymru. Roedd yr arolwg ar gael mewn Tsieineaidd Traddodiadol, Cymraeg a Saesneg, gan sicrhau hygyrchedd ar gyfer ymatebwyr gyda gwahanol lefelau o ran rhuglder yn y Saesneg. Cynhaliwyd arolwg peilot yn cynnwys 22 person o Hong Kong yn haf 2025, gan alluogi mireinio geiriad a strwythur y cwestiynau. Lansiodd yr arolwg llawn ar 22 Awst 2025 ac roedd ar agor tan ganol mis Hydref i gynyddu cyfranogiad.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 3,715 o drigolion arferol a anwyd yn Hong Kong yn byw yng Nghymru (StatsCymru 2022). Nid yw maint presennol y boblogaeth o ymfudwyr BN(O) o Hong Kong sydd yng Nghymru yn hysbys, oherwydd dim ond cofnodion ar gyrraedd y DU am y tro cyntaf a gedwir gan y Swyddfa Gartref ac nid yw'n olrhain mudo mewnol dilynol neu batrymau ymgartrefu. Yn absenoldeb sampl cyflawn a fframwaith cywir, mabwysiadodd yr arolwg strategaeth recriwtio nad oedd yn seiliedig ar debygolrwydd, yn y gymuned. Rhannwyd yr holiadur ar-lein drwy grwpiau cyfryngau cymdeithasol Gwladolion Prydeinig (Tramor) Hong Kong a rhwydweithiau cymunedol sefydledig. Cynhaliwyd gweithgareddau estyn allan ac ymgysylltu helaeth yng Nghanolfan Galw Heibio CBC (Cwmni Buddiannau Cymunedol) Pobl Hong Kong Caerdydd, yn ogystal â mewn caffis a siopau Hong Kong, eglwysi Tsieineaidd a digwyddiadau cymunedol ar draws Caerdydd ac Abertawe lle mae llawer o bobl o Hong Kong sydd wedi symud i Gymru yn ymgynnull yn rheolaidd.

Cafwyd 232 o ymatebion i'r arolwg sylfaenol. Roedd 73 ohonynt yn ymatebion rhannol (roedd yr ymatebwyr wedi dechrau ond heb gwblhau'r holiadur). Roedd y 160 ymateb a oedd yn weddill gan gyfranogwyr a oedd wedi darllen holl dudalennau'r arolwg ac wedi clicio 'cyflwyno' ar y diwedd. Fodd bynnag, nid oedd cyflwyno o reidrwydd yn golygu fod pob cwestiwn wedi cael ei ateb. Cadwyd ymatebion rhannol os oedd y cyfranogwr wedi rhoi caniatâd ac wedi ateb mwy na dau gwestiwn. Dilëwyd 27 o ymatebion rhannol. Tynnwyd 30 o ymatebion cyflawn eraill gan nad oedd y cyfranogwr wedi rhoi caniatâd; roedd yn gyfranogwr peilot a oedd wedi cwblhau'r arolwg mwy nag unwaith, neu wedi cyflwyno cais dyblyg (a nodwyd drwy gyfeiriadau IP a oedd yr un fath a, lle'r oeddent ar gael, cyfeiriadau e-bost hefyd). Gyda'i gilydd, eithriwyd 57 cofnod o set ddata y prif ymatebwyr.

Ar gyfer aelwydydd gyda mwy nag un preswlydd, gofynnwyd i'r prif ymatebwyr anfon yr arolwg ymlaen at aelodau eraill o'u haelwyd i gynhyrchu ymatebion eilaidd. Fodd bynnag, dim ond 21 o ymatebion eilaidd a gafwyd, yn cynnwys dau ymateb rhannol. Dilëwyd yr ymatebion rhannol hyn gan nad oedd unrhyw gwestiynau wedi cael eu hateb. Tynnwyd wyth ymateb cyflawn arall oherwydd yr oeddent wedi'u dyblygu o'r cam peilot, roeddent

¹ [Arolwg Panel Ymfudwyr BN\(O\) o Hong Kong | Sefydliad Addysg UCL](#)

yn gyflwyniadau prawf gan y tîm prosiect, neu oherwydd nad oedd caniatâd wedi cael ei roi. Gyda'i gilydd, dilëwyd deg cofnod o set ddata yr ymatebwyr eilaidd.

Roedd y sampl terfynol yn cynnwys 175 o brif ymatebwyr ac 11 o ymatebwyr eilaidd, gan roi cyfanswm o 186 o gyfranogwyr. Roedd lle i ymatebwyr ddewis "Mae'n well gen i beidio â dweud", ac mae ymatebion o'r fath wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Nid oedd pob cwestiwn yn berthnasol i bob cyfranogwr, a dewisodd rai i beidio ag ateb rhai eitemau. Roedd ymatebion coll yn cael eu trin fel data coll ac yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad; felly mae nifer yr achosion yn amrywio ar draws newidynnau. Mae manylion llawn ynghylch y data coll ar gael ar gais.

Gan fod yr arolwg yn y gymuned ac yn dibynnu ar gyfranogiad gwirfoddol yn hytrach na sampl ar hap, nid yw'r sampl derfynol yn seiliedig ar debygolrwydd ac efallai nad yw'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach o bobl o Hong Kong yng Nghymru. Rhaid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus. Mae dull samplo gwirfoddol nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd, a dull samplo yn seiliedig ar rwydwaith yn ddefnyddiol pan nad oes fframwaith samplo yn bodoli ond maent yn cyflwyno'r risg o duedd hunan-ddewis (Blaikie 2010). Roedd unigolion a oedd yn fwy cysylltiedig yn gymdeithasol, yn fwy gweithgar yng ngofodau cymunedol pobl o Hong Kong, neu'n ymgysylltu'n fwy â rhwydweithiau BN(O) ar-lein yn fwy tebygol o gael eu cyrraedd a chymryd rhan, gan arwain at or-gynrychiolaeth (Etikan et al 2016). Hefyd, gall arolygon ar-lein eithrio rhai is-grwpiau nad ydynt yn ymgysylltu'n ddigidol neu is-grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd yn systematig (Couper 2002). O ganlyniad, ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r holl ymfudwyr BN(O) Hong Kong yng Nghymru. Dylid dehongli amcangyfrifon o nodweddion a phrofiadau demograffig yn ddangosol yn hytrach nag yn gynrychiadol yn ystadegol (de Vaus 2014, Babbie 2021). Gall y patrymau a nodwyd adlewyrchu nodweddion y rhai hynny a oedd yn fwy cyraeddadwy drwy rwydweithiau cymunedol yn hytrach na'r boblogaeth gyfan. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r arolwg yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr i brofiadau a llwybrau ymgartrefu nifer helaeth o ymfudwyr Hong Kong yng Nghymru, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymgysylltu â rhwydweithiau cymunedol, ac yn cynnig sail dystiolaeth bwysig ar gyfer deall anghenion sy'n dod i'r amlwg o fewn y boblogaeth hon.


4 Canfyddiadau'r Arolwg

4.1 Demograffeg

Ymhlith y 186 o ymatebion, bu i 114 (61%) gwblhau'r arolwg mewn Tsieinëeg Draddodiadol, 71 (38%) yn Saesneg ac 1 yn Gymraeg. Mewn cymhariaeth, cofnodwyd yn yr Arolwg Croeso 2022 bod 70% wedi'i gwblhau mewn Tsieinëeg a 30% wedi'i gwblhau yn Saesneg, gan awgrymu bod cyfran gynyddol o bobl o Hong Kong sydd wedi mudo i Gymru yn awr yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'u Saesneg.

Ymhlith y prif ymatebwyr, roedd 57% yn ferched a 38% yn ddynion, gyda 5% arall wedi nodi eu bod yn "well ganddynt beidio â dweud". Wrth gyfuno â'r ymatebwyr eilaidd, roedd 39% yn ddynion a 56% yn ferched.

Ffigur 4.1.1: Rhyw yr ymatebwyr



Tabl 4.1.1: Rhyw yr ymatebwyr

	Prif Ymatebydd	Ymatebydd Eilaidd	Cyfanswm	%
Gwryw	67	6	73	39.2
Benyw	99	5	104	55.9
Mae'n well gen i beidio â dweud	9	0	9	4.8
Cyfanswm	175	11	186	100

OEDRAN

Roedd bron i hanner (49%) y prif ymatebwyr rhwng 45 a 64 mlwydd oed ac roedd 40% rhwng 25 a 44 oed. Wrth gyfuno â'r ymatebwyr eilaidd, ychydig iawn o newid a welir o ran y proffil oedran, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 45-64 oed. Dim ond 6.5% o'r holl ymatebwyr oedd o dan 24 oed ac roedd 5% arall yn 65 oed neu'n hŷn.

Tabl 4.1.2: Oedran yr ymatebwyr

	Prif Ymatebydd	Ymatebydd Eilaidd	Cyfanswm	%
16-24	10	2	12	6.5
25-44	70	3	73	38.9
45-64	85	5	90	49.2
65+	9	1	10	5.4
Cyfanswm	174	11	185	100

Crefydd

Roedd gan bron i hanner (48%) y prif ymatebwyr grefydd ac roedd 43% wedi ateb 'Na' i'r cwestiwn hwn. Mae gwaith ymchwil wedi canfod y gall crefydd chwarae rhan gadarnhaol wrth i ymfudwyr integreiddio oherwydd ei fod yn aml yn rhoi adnoddau seicolegol, ysbrydol a chymdeithasol hanfodol iddynt, gan eu helpu i ymdopi gyda chynnwrf mudo, yr ansicrwydd yn gysylltiedig â symud a'r heriau wrth ymgartrefu mewn gwlad newydd (Eppsteiner and Hagan 2016). Gall crefydd hefyd fod yn gyfalaf cymdeithasol sy'n darparu cyswllt a phontio ag eraill lle gall cyfranogiad crefyddol wella integreiddio drwy gynnig rhwydweithiau cymdeithasol i fudwyr, systemau cefnogi ar y cyd, a chyfleoedd cyflogaeth a rhyngweithio gyda chymdeithas ddinesig ehangach. Yn ôl yr Arolwg Croeso 2022, roedd eglwysi a grwpiau ffydd wedi bod yn ffynhonnell gefnogaeth gymdeithasol bwysig i bobl o Hong Kong ar ôl iddynt gyrraedd.

Tabl 4.1.3: Crefydd yr ymatebwyr

Crefydd		%
Oes	78	48.1
Nac oes	70	43.2
Mae'n well gen i beidio â dweud	14	8.6
Cyfanswm	162	100

Hunaniaeth Genedlaethol

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu hunaniaeth genedlaethol, dywedodd y mwyafrif helaeth (83%) eu bod yn ystyried eu hunain yn bobl o Hong Kong. Gan fod modd cyflwyno mwy nag un ymateb, roedd 32% hefyd yn ystyried eu hunain yn Brydeinig, ac 16% yn Gymreig, gan adlewyrchu cysylltiadau newydd a ffurfiwyd ar ôl mudo. Mewn

cyferbyniad, dim ond 7% oedd yn ystyried eu hunain fel Tsieineaidd, patrwm sy'n cydfynd ag ymchwil hirsefydlog ar ffurfio hunaniaeth Hong Kong. Mae ysgolheigion wedi dangos bod llywodraethu trefedigaethol yn maethu hunaniaeth ddinesig leol amlwg yn hytrach nag un genedlaethol Tsieineaidd (Lin 2025; Kam 2020). Ers y 2000au, mae pwysau integreiddio gwleidyddol mwy dwys o Beijing wedi creu bygythiad ymddangosiadol i natur unigryw Hong Kong, gan gymell llawer o breswylwyr i ddatgan hunaniaeth gryfach fel “pobl o Hong Kong” (Yew and Kwong 2014).

Tabl 4.1.4: Hunaniaeth Genedlaethol yr ymatebwyr

	Cyfanswm	%
Hong Kong	154	82.8
Tsieineaidd	13	7.0
Saesnig	6	3.2
Cymreig	29	15.6
Albanaidd	2	1.1
Prydeinig	59	31.7
Gwyddelig (Gogledd Iwerddon)	0	0
Gwyddelig	0	0
Arall	2	1.1
Mae'n well gen i beidio â dweud	5	2.7

4.2 Statws priodasol/partneriaeth a strwythur y teulu

Tabl 4.2.1: Statws priodasol yr ymatebwyr

Statws Priodasol	Cyfanswm	%
Sengl erioed wedi priodi/cofrestru mewn partneriaeth sifil	52	31.0
Priod	109	64.9
Mewn partneriaeth sifil gofrestredig	2	1.2
Wedi gwahanu, ond yn dal wedi priodi / mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol	2	1.2
Wedi ysgaru / cyn bartner sifil, gyda'r bartneriaeth sifil wedi'i diddymu'n gyfreithiol	1	0.6
Gweddw / partner sifil sy'n goroesi	2	1.2
Cyfanswm	168	100

Roedd 65% o'r prif ymatebwyr yn briod, a 31% yn sengl ac erioed wedi priodi.

Rhieni gyda mab/merch naturiol

Tabl 4.2.2: Nifer y plant

Nifer y plant	%
1	48.0

2	37	49.3
3	2	2.7
Cyfanswm	75	100

Dyweddodd 75 o'r ymatebwyr fod ganddynt fab neu ferch naturiol. Nid oedd gan unrhyw un o'r cyfranogwyr blant maeth, llys-blant neu blant mabwysiedig.

Ymhlith yr holl brif ymatebwyr, roedd gan 63% o'r prif ymatebwyr priod blant. Roedd gan 43% o'r prif ymatebwyr gwrywaidd blant a 46% o'r prif ymatebwyr benywaidd blant, ond dim ond 6% o unigolion a oedd yn sengl, erioed wedi priodi/bod mewn partneriaeth sifil oedd wedi nodi bod ganddynt blant.

4.3 Tai a Llety

Tabl 4.3.1: Daliadaeth tai yr ymatebwyr

Daliadaeth Tai		%
Yn berchen arno'n gyfan gwbl	68	43.0
Yn berchen arno gyda morgais	22	13.9
Yn rhannu perchnogaeth (yn berchen yn rhannol, yn rhentu'n rhannol)	2	1.3
Yn rhentu	62	39.2
Di-rent	1	0.6
Arall (nodwch)	3	1.9
Cyfanswm	158	100

Roedd 43% o'r prif ymatebwyr yn berchen ar eu heiddo'n gyfan gwbl ac roedd 14% arall yn berchen ar eu heiddo gyda morgais. Roedd y grŵp mwyaf ond un (40%) yn rhentu.

Nifer y bobl yn yr aelwyd

Tabl 4.3.2: Nifer y bobl yn yr aelwyd

Nifer unigolion	yr	%
1	21	12.2
2	57	32.9
3	42	24.3
4	43	24.9
5	7	4.0
6-9	3	1.8
Cyfanswm	175	100

Roedd y rhan fwyaf (82%) o'r prif ymatebwyr yn byw mewn aelwydydd bach gyda dim mwy na phedwar person. Aelwyd dau unigolyn yw'r patrwm mwyaf cyffredin o hyd. Nodwyd 0 gan ddau o'r ymatebwyr ond fe newidiwyd yr atebion hyn i 1 oherwydd gofynnwyd iddynt gynnwys eu hunain wrth ateb y cwestiwn hwn.

4.4 Addysg a Chyflogaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi lefel uchaf y cymwysterau maen nhw wedi'u hennill. Yn gyson ag arolwg hydredol UCL o ymfudwyr BN(O), mae'r gymuned o bobl o Hong Kong yng Nghymru yn gymwys iawn, gyda 60% o'r ymatebwyr yn meddu ar radd dosbarth cyntaf neu gymhwyster ôl-radd. Mewn cyferbyniad, mae'r data o Gyfrifiad 2021 yn dangos mai dim ond 31% o breswylwyr a anwyd yn y DU sydd â chymhwyster Lefel 4+, y meincnod safonol ar gyfer cyrhaeddiad lefel gradd yn y DU. Mae hyn yn dangos bod ymfudwyr Hong Kong yng Nghymru bron ddwywaith mor debygol â phreswylwyr a anwyd yn y DU, sy'n wyn yn bennaf, i feddu ar gymwysterau addysg uwch, gan adlewyrchu'r duedd sydd wedi'i dogfennu'n dda o ymfudwyr yn cyrraedd gyda chyrhaeddiad addysgol uwch na'r boblogaeth a anwyd yn y DU.

Tabl 4.4.1: Y cymhwyster addysgol uchaf sydd gan yr ymatebwyr

Cymhwyster addysgol uchaf	Cyfanswm	%
Gradd Uwch o Brifysgol (e.e. MSc, PhD)	55	29.6
Cymhwyster lefel gradd gyntaf, yn cynnwys graddau sylfaen, aelodaeth raddedig o sefydliad proffesiynol, TAR / gradd gyswllt	56	30.1
Diploma mewn addysg uwch / diploma uwch	26	14.0
Cymhwyster nyrsio neu gymhwyster meddygol arall sydd heb ei grybwyll uchod	2	1.1
Arholiad Lefel Uwch Hong Kong / Safon Uwch / Bagloriaeth Cymru / y Fagloriaeth Ryngwladol / Cymhwyster Graddau Uwch / Cymhwyster Uwch (yr Alban)	5	2.7
Diploma Arholiad Addysg Uwchradd Hong Kong / Uwch Gyfrannol / Tystysgrif astudiaethau chweched flwyddyn / Diploma Astudiaethau Sylfaen	10	5.4
Tystysgrif Arholiad Addysg Hong Kong, Diploma Yi Jin / TGAU Lefel O/Diploma Astudiaethau Sylfaen	8	4.3
CSE	11	5.9
Safonol / Gradd (O) 'Ordinary' / Is (yr Alban)	1	0.5
Ysgol arall (yn cynnwys tystysgrif arholiad gadael ysgol neu arholiad mynediad)	3	1.6
Dim un o'r uchod	9	4.8
Cyfanswm	186	100

Statws Swydd

Tabl 4.4.2: Statws swyddi yr ymatebwyr

	Cyfanswm	%
Hunangyflogedig	21	11.4
Mewn gwaith cyflogedig (llawn amser neu ran amser)	87	47.0

Di-waith	18	9.7
Wedi ymddeol	25	13.5
Yn gofalu am y teulu neu'r cartref	20	10.8
Myfyriwr llawn amser	9	4.9
Ar gynllun hyfforddiant Llywodraeth	1	0.5
Gwneud rhywbeth arall	4	2.2
Cyfanswm	185	100

Er gwaethaf y lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol ymhlith yr ymfudwyr BN(O) o Hong Kong sy'n byw yng Nghymru, mae diweithdra yn y grŵp hwn yn hynod o uchel o gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol a rhanbarthol. Ymhlith y 126 o ymatebwyr economaidd weithgar, dywedodd 14% (N=18) eu bod yn ddi-waith. Mae'r gyfradd hon bron deirgwaith yn hwy na chyfradd diweithdra cenedlaethol y DU o 4.7% yn 2025 (SYG, 2025) ac yn llawer iawn uwch na chyfartaledd Cymru o 4.1% yn Awst 2025 (StatsCymru, 2025). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mewn gwaith cyflogedig, gyda 47% wedi'u cyflogi'n llawn amser neu'n rhan amser ac 11.4% yn hunangyflogedig, gan olygu bod 58.4% mewn gwaith am dâl ar y cyfan. Y categorïau mwyaf nesaf oedd unigolion a oedd wedi ymddeol (14%) a'r rhai hynny'n "gofalu am y teulu neu'r cartref" (11%), gan ddangos cyfres amrywiol o weithgareddau economaidd ar draws y sampl.

Dosbarth Cymdeithasol - Cyrhaeddiad galwedigaethol a phroffil cychwynnol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl am eu prif swydd. Roedd teitlau eu swyddi wedi'u codio gan ddefnyddio'r Grwpiau Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) swyddogol. Mae'r fersiwn wyth dosbarth (NS-SEC8) yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd, tra bod y fersiwn pum dosbarth (NS-SEC5) yn cynnig grwpiau dosbarth cymdeithasol ehangach ond mae wedi'i chyfyngu i unigolion sydd mewn gwaith.

Er gwaethaf proffil addysgol uchel yr ymfudwyr BN(O) Hong Kong yn yr arolwg hwn, roedd gan 60% radd prifysgol neu gymhwyster ôl-radd, dim ond 23% oedd wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau rheolaethol a phroffesiynol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn dangos anghysondeb nodedig rhwng cyrhaeddiad addysgol a chanlyniad y farchnad lafur ymysg y grŵp hwn.

Tabl 4.4.3: Dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr

NS-SEC8	Cyfanswm	%
Galwedigaethau rheolaethol neu broffesiynol uwch	26	14.0
Galwedigaethau rheolaethol neu broffesiynol is	16	8.6
Galwedigaethau canolradd - clericio, maes gwerthiant, gwasanaethau	8	4.3
Cyflogwyr bach, gweithwyr hunan-gyfrif	18	9.7

Galwedigaethau goruchwyliol, technegol is	5	2.7
Galwedigaethau rhannol-reolaidd	7	3.8
Galwedigaethau rheolaidd	9	4.8
Di-waith, erioed wedi gweithio	75	40.3
Cyfanswm	164	

Proffil unigolion cyflogedig yn unig (NS-SEC5)

Pan fo ymatebwyr di-waith neu rai sy'n anweithgar yn economaidd yn cael eu heithrio, mae'r dosbarthiad NS-SEC5 yn rhoi gwell syniad o'r proffil dosbarth cymdeithasol ymhlith y rhai hynny mewn swyddi cyflogedig. Ymhlith y cyfranogwyr hynny a oedd mewn gwaith ac oedd wedi darparu digon o fanylion am eu prif swydd, roedd 47% mewn galwedigaethau rheolaethol neu broffesiynol, gydag 20% arall yn hunangyflogedig (gweithwyr hunan-gyfrif). Mae'r dosbarthiad hwn yn awgrymu sefyllfa marchnad lafur sydd rhywfaint yn fwy ffafriol ar gyfer y rhai hynny mewn gwaith, ond yn parhau i fod yn arwydd o amrywiad nodedig o fewn y garfan gyflogedig.

Camgymhariad sgiliau a galwedigaethau

Mae safbwynt mwy cynhwysfawr yn dod i'r amlwg pan gaiff y dadansoddiad ei ymestyn i gynnwys y 98 o ymatebwyr gyda gwybodaeth am y cymwysterau uchaf a statws cyflogaeth. O fewn yr is-grŵp o gyfranogwyr gyda gradd neu radd uwch, roedd 32% naill ai'n ddi-waith neu'n anweithgar yn economaidd. Ymhlith y grŵp hynod addysgedig hwn, dim ond 36% oedd mewn galwedigaethau rheolaethol neu broffesiynol, gyda 13% arall yn hunan-gyflogedig. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn tanlinellu camgymhariad amlwg rhwng cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau'r farchnad lafur, yn gyson â thystiolaeth gymharol bod ymfudwyr hynod addysgedig yn aml yn profi cyfnod cychwynnol o israddio galwedigaethol cyn i lwybrau sefydlogi (Friedberg 2000, Dustmann, Glitz and Vogel 2010, Chiswick and Miller 2009).

Tabl 4.4.4: Dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr cyflogedig

NS-SEC5	Cyfanswm	%
Galwedigaethau rheolaethol neu broffesiynol	42	47.2
Galwedigaethau canolradd - clercio, maes gwerthiant, gwasanaethau	8	9.0
Cyflogwyr bach, gweithwyr hunan-gyfrif	18	20.2
Galwedigaethau goruchwyliol, technegol is	5	5.6
Galwedigaethau rhannol-reolaidd a rheolaidd	16	18.0
Cyfanswm	89	

Dosbarthiad adrannol a'i oblygiadau

Tabl 4.4.5: Sector diwydiannol gwaith yr ymatebwyr

	Cyfanswm	%
Gweithgynhyrchu	4	4.2

Adeiladu	3	3.2
Cyfanwerthu, Masnach Fanwerthu; Atgyweirio Cerbydau	6	6.3
Modur, Beiciau Modur		
Cludo a Storio	6	6.3
Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd	9	9.5
Gwybodaeth a Chyfathrebu	4	4.2
Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant	2	2.1
Gweithgareddau Eiddo Tirol	2	2.1
Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	9	9.5
Gweithgareddau Gwasanaethau Cefnogi a Gweinyddol	8	8.4
Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Amddiffyn, Diogelwch	5	5.3
Cymdeithasol Gorfodol		
Sefydliad Addysg / Addysg Uwch	13	13.7
Gweithgareddau Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol	4	4.2
Celfyddydau, Adloniant a Hamdden	5	5.3
Dim un o'r uchod	8	8.4
Mae'n well gen i beidio â dweud	7	7.4
Cyfanswm	95	100.0

Mae gan y crynhoad o ymfudwyr o Hong Kong sy'n gweithio yn y sector Addysg (14%), y sector Llety a Gwasanaethau Bwyd, a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (pob un ar 10%), lawer o oblygiadau pwysig o ran deall cynnwys eu marchnad lafur.

Gall eu presenoldeb cryf mewn Addysg awgrymu bod llawer o bobl o Hong Kong yn ceisio manteisio ar eu cyfalaf dynol a phrofiad proffesiynol presennol, gan adlewyrchu lefelau uchel o gymwysterau a natur rannol drosglwyddadwy sgiliau pedagogaid i gyd-destun y DU (Freidberg 2000, Zorlu 2011). Fodd bynnag, efallai na fydd y rolau hyn yn cyfateb â statws galwedigaethol blaenorol, gan fod llawer o ymfudwyr yn aml yn dechrau ar rolau gradd is neu barabroffesiynol, gan awgrymu symudedd galwedigaethol ar i lawr i ddechrau a thangyflogaeth er gwaethaf aliniad sectoraidd (Dustmann, Glitz and Vogel 2010).

Mewn cyferbyniad, mae'r gyfran sylweddol sy'n gweithio o fewn Llety a Gwasanaethau Bwyd yn amlygu patrwm mwy amlwg o danddefnyddio sgiliau. Mae cyflogaeth yn y sector hwn fel arfer wedi'i nodweddu gan gyflogau is, datblygiad gyrfaol cyfyngedig, a mwy o ansicrwydd, patrymau wedi'u dogfennu'n dda ymysg grwpiau o ymfudwyr newydd yn wynebu rhwystrau megis diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau, trwyddedu proffesiynol cyfyngedig, ac ymarferion recriwtio gwahaniaethol (Heath and Cheung 2007, OECD 2020). Mae'r gynrychiolaeth o garfan hynod addysgedig yn y sector hwn felly'n awgrymu cyfyngiadau strwythurol sy'n atal defnydd llawn o'u sgiliau.

Yn y cyfamser, mae'r gyfran fach a gyflogir mewn gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol, er y cyfraddau uchel o ddeiliaid gradd yn y sampl, yn ategu parhad camgymhariad galwedigaethol, ffenomenon a welir yn eang yng nghramau cynnar proses ymgartrefu ymfudwyr (Chiswick and Miller 2009, Green Atfield and Purcell 2015).


O ystyried natur y diwydiannau hyn sy'n ddwys o ran gwybodaeth, mae'r gyfran gymharol isel o ymfudwyr o Hong Kong sy'n sicrhau swyddi ynddynt yn awgrymu bod rhwystrau i fynediad, megis gofynion profiad gwaith penodol i'r DU a hoffter cyflogwyr o gymwysterau lleol, yn parhau i lywio canlyniadau cynnar y farchnad lafur.

Gyda'i gilydd, mae'r patrymau hyn yn awgrymu trywydd fforchog cynnwys y farchnad lafur: un llwybr yn hwyluso mynediad at alwedigaethau sydd yn alinio'n fras gyda'u cymwysterau a phrofiad blaenorol, ac un arall yn cyfeirio ymfudwyr tuag at swyddi sgiliau is yn y sector gwasanaeth sy'n cyfrannu at dangyflogaeth a symud ar i lawr. Mae segmentiadau o'r fath yn gyson â thystiolaeth ryngwladol ar lwybrau galwedigaethol ymfudwyr ac yn tanlinellu'r heriau a wynebier gan ymfudwyr BN(O) o Hong Kong wrth drosi cyfalaf addysgol yn enillion marchnad lafur cymesur (Engzell & Ichou 2020, Heath & Li 2008).

Chwilio am swyddi, anfodlonrwydd, a symudedd cyfyngedig

Er eu bod mewn gwaith ar hyn o bryd, dywedodd 47% o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn chwilio am waith yn ystod y 12 mis diwethaf, a nododd 45% anawsterau o ran cael swydd a oedd yn gymesur â'u sgiliau a phrofiad blaenorol. Mae parhau i chwilio am swydd yn y modd hwn yn arwydd o dangyflogaeth a chamgynhariad canfyddedig. Mae'n cyd-fynd â thystiolaeth y gall cludadwyedd cymwysterau, diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau, a gallu cyfyngedig i drosglwyddo profiad proffesiynol, gyfyngu symudedd cynnar a lleihau canlyniad addysg ar gyfer ymfudwyr (Friedberg, 2000; Chiswick & Miller, 2009). Mae'r canfyddiadau felly awgrymu, er bod y llwybr BN(O) yn hwyluso mynediad a phreswyllo'n gyfreithiol, nid yw'n trosi'n awtomatig i leoliadau galwedigaethol cymesur; yn hytrach, ymddengys bod llawer o ymatebwyr yn llywio cyfnod pontio a nodweddir gan gymwysterau sy'n rhy dda ar gyfer swyddi ac ymdrechion i alinio cyflogaeth gyda'u cyfalaf dynol (Dustmann, Glitz & Vogel, 2010; Green, Atfield & Purcell, 2015).

Ffigur 4.4.1: Ymatebwyr yn chwilio am swydd arall



Rhwysterau i Gyflogaeth

Roedd rhwystrau i sicrhau cyflogaeth addas yn eang. Ymhlith y rhai hynny a oedd wedi chwilio am waith newydd yn y 12 mis diwethaf, er gwaetha'r ffaith eu bod eisoes yn gyflogedig, nododd 10% (n = 19) eu bod wedi cael eu gwrthod ar gyfer swydd yn dilyn

cyfweliad neu asesiad. Priodolodd yr ymatebwyr y ceisiadau aflwyddiannus hyn i wahaniaethu ar sail ethnigrwydd (n = 6), iaith neu acen (n = 5), cenedligrwydd (n = 4), oedran (n = 3), ac iechyd neu anabledd (n = 1). Mae profiadau o'r fath yn adleisio canfyddiadau sefydledig ar gosbau ethnig a thuedd cyflogwyr yn effeithio ar ymgeiswyr o leiafrifoedd ac ymgeiswyr sy'n ymfudwyr ym marchnad lafur y DU (Heath & Cheung, 2007; Heath & Li, 2008). Mae gwahaniaethu ar sail ieithyddol neu acen hefyd yn gyson ag ymchwil cymdeithasol-ieithyddol sy'n dangos rôl ideolegau hil-ieithyddol wrth lywio canfyddiadau cyflogwyr mewn perthynas â gallu ac "addasrwydd" (Flores & Rosa, 2015; Zimman, 2020).

Adroddwyd hefyd am y rhwystrau strwythurol yn ymwneud ag integreiddio â'r farchnad lafur. Nodwyd anawsterau iaith Saesneg gan 20% (n = 38), gan gyd-fynd â thystiolaeth fod rhuglder ieithyddol yn cael effaith sylweddol ar fynediad at gyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau a'r cyflog a geir (Dustmann & Fabbri, 2003; Chiswick & Miller, 2009). Nodwyd diffyg gwybodaeth leol o ran "sut mae pethau'n gweithio" yn y DU gan 18% (n= 33), ac fe nododd 16% (n = 30) absenoldeb o rwydweithiau proffesiynol lleol - ffactorau a oedd yn cyfyngu effeithlonrwydd paru swyddi ac yn cyfyngu symudedd ymfudwyr (Lancee, 2010; Ryan et al., 2008). Yn ogystal, roedd 14% (n = 26) o'r farn nad oedd cyflogwyr yn cydnabod neu'n deall eu cymwysterau tramor. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil sy'n dangos bod cyfalaf dynol a geir o dramor yn aml yn dioddef oherwydd gallu cyfyngedig i drosglwyddo, gan arwain at dangyflogaeth ymysg ymfudwyr hynod fedrus (Friedberg, 2000). Gyda'i gilydd, mae'r rhwystrau hyn yn adlewyrchu cydadwaith gwahaniaethu, diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau, cyfyngiadau iaith, a chyfalaf cymdeithasol gwannach, nodweddion cyffredin a welir yn gynnar ym mhroses ymgartrefu ymfudwyr (Engzell & Ichou, 2020; Green, Atfield & Purcell, 2015).

Ffigur 4.4.2: Rheswm dros beidio â chael swydd sy'n cyd-fynd â sgiliau a phrofiad



Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector

Tabl 4.4.6: Math o sefydliad nad yw'n un preifaf

	Cyfanswm	%
Cwmni cyhoeddus	1	2.8
Diwydiant wedi'i wladoli / corfforaeth wladol	1	2.8

Llywodraeth ganolog neu wasanaeth sifil	6	16.7
Llywodraeth leol neu Gyngor (yr heddlu, gwasanaethau tân ac ysgolion / colegau'r awdurdod lleol)	7	19.4
Prifysgol neu sefydliad addysg arall a ariennir drwy grant (gan gynnwys ysgolion sydd wedi optio allan)	5	13.9
Awdurdod iechyd neu ymddiriedolaeth y GIG	7	19.4
Elusen, sefydliad gwirfoddol neu ymddiriedolaeth	3	8.3
Rhyw fath o sefydliad arall	6	16.7
Cyfanswm	36	100.0

Ymhlith y 108 o brif ymatebwyr a oedd yn hunangyflogedig neu'n weithwyr llawn neu ran amser, dim ond 36 oedd wedi nodi eu bod yn gweithio ar gyfer sefydliad nad oedd yn breifat. Yn ôl pob golwg, roedd y rhai hynny a oedd wedi'u cyflogi y tu allan i'r sector preifat mewn swyddi cymharol fanteisiol: roedd 19% yn gweithio mewn llywodraeth leol, cynghorau neu awdurdodau iechyd, roedd 17% mewn llywodraeth ganolog neu'r gwasanaeth sifil; ac roedd 14% mewn prifysgolion. Mae rolau o'r fath fel arfer yn cael eu hystyried yn "swyddi da", gan gynnig mwy o sefydlogrwydd cyflogaeth, llwybrau dyrchafiad clir, a diogeliadau gweithle cryfach. Mae prosesau recriwtio'r sector cyhoeddus a phrifysgolion hefyd yn tueddu i fod yn fwy rheoledig a thryloyw, gan leihau'r posibilrwydd o fod yn agored i rwystro gwahaniaethol (Heath & Cheung, 2007). Fodd bynnag, mae'r gyfran gymharol fach sydd yn y sectorau hyn yn ategu tystiolaeth gynharach o symudedd cyfyngedig a'r heriau a wynebir gan ymfudwyr BN(O) o Hong Kong wrth ddechrau gyrfaedd rheoledig neu sy'n sensitif o ran cymwysterau, lle mae cymwysterau a gydnabyddir yn y DU a phrofiad lleol yn arbennig o bwysig (Friedberg, 2000; Chiswick & Miller, 2009).

Ar draws yr holl ddangosyddion, mae ymfudwyr BN(O) o Hong Kong yn arddangos patrymau clir o dangyflogaeth a chamgymhariad galwedigaethol er gwaethaf eu cyrhaeddiad addysgol uchel. Mae didoli fesul sector, cyfrannau sylweddol o unigolion â graddau yn ddi-waith, unigolion cyflogedig yn parhau i chwilio am waith, a chanfyddiadau eang o wahaniaethu i gyd yn arwydd o gyfyngiadau strwythurol ar symudedd y farchnad lafur. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd yn agos ag ymchwil rhyngwladol sy'n dangos bod camau ymgartrefu cynnar wedi'u marcio gan enillion cyfyngedig i gyfalaf dynol o dramor, rhwystrau i gydnabod cymwysterau, a'r angen i feddu ar brofiad a chyswllt â rhwydweithiau yn y wlad letyol cyn sicrhau aliniad galwedigaethol (Engzell & Ichou, 2020; Green, Atfield & Purcell, 2015). Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau'n tanlinellu pwysigrwydd cydnabyddiaeth sefydliadol, cefnogaeth wedi'i thargedu ac ymarferion cynhwysol o fewn y farchnad lafur er mwyn galluogi mudwyr medrus i wireddu eu llawn botensial o fewn economi'r DU.

4.5 Sgiliau a Dosbarthiadau Iaith


Nododd ychydig dros 80% o'r cyfranogwyr nad oeddent yn cael unrhyw drafferth siarad Saesneg yn ystod gweithgareddau bob dydd megis siopa neu ddefnyddio cludiant

cyhoeddus. Nododd y 19% o gyfranogwyr a oedd yn weddill eu bod yn profi anawsterau; roedd 35% yn ei chael 'ychydig yn anodd' siarad Saesneg, roedd 17% ei chael yn 'anodd iawn', a dywedodd 10% nad oeddent yn gallu siarad Saesneg o gwbl.


Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny, a oedd wedi nodi anawsterau'n siarad Saesneg wrth ryngweithio'n ddyddiol, a oeddent yn profi'r un anawsterau wrth siarad Saesneg ar y ffôn. Roedd pawb yn cael trafferth yn y cyd-destun hwn. Yn eu plith, roedd 42% yn ei chael yn 'eithaf anodd' i siarad dros y ffôn, roedd 46% yn ei chael yn 'anodd iawn', a 12% yn ei chael 'ychydig yn anodd'.

Roedd dros 75% o'r sampl yn gallu darllen llythyrau neu ddogfennau ffurfiol Saesneg yn ddiraffferth. Ymhlith y 23% a oedd yn profi anawsterau, nododd 3 o'r cyfranogwyr (9%) nad oeddent yn gallu darllen Saesneg o gwbl, roedd 29% yn ei chael yn 'anodd iawn', 14% yn ei chael yn eithaf anodd, a 49% yn ei chael 'ychydig yn anodd'. Gofynnwyd i'r rhai hynny a oedd yn cael anawsterau wrth ddarllen dogfennau ffurfiol a oeddent yn ei chael yn anodd llenwi ffurflenni swyddogol yn Saesneg. Yn ôl y ffigyrau, roedd dau draean wedi profi anawsterau gyda'r dasg hon: roedd bron i chwarter yn ei chael hi'n 'anodd iawn', dywedodd 38% ei bod 'ychydig yn anodd', a 38% arall ei bod yn 'eithaf anodd'.

Ffigur 4.5.1: Sgiliau iaith Saesneg yr ymatebwyr




Ffigur 4.5.2: Sgiliau iaith Saesneg gyda demograffeg



Ar ôl gwahanu yn ôl demograffeg, roedd dynion ychydig yn fwy tebygol na merched i roi gwybod am anawsterau wrth siarad Saesneg mewn sefyllfaoedd dyddiol (21% o gymharu ag 17%), ond roedd merched yn fwy tebygol o roi gwybod am anawsterau wrth ddarllen dogfennau neu lythyrau ffurfiol (25% o gymharu ag 20%). Yn gyffredinol, nodwyd llai o heriau gan ymatebwyr iau, ni nododd unrhyw un rhwng 16-24 oed unrhyw anawsterau wrth siarad Saesneg neu ddarllen dogfennau neu lythyrau ffurfiol. O gymharu â 33% a 56% yn y drefn honno ymhlith cyfranogwyr 65 oed a throsodd. Roedd cymwysterau uwch yn gysylltiedig â llai o adroddiadau am anawsterau iaith ar draws yr holl dasgau.

Roedd yr holl gyfranogwyr a oedd yn ei chael yn anodd siarad Saesneg mewn rhyngweithiadau bob dydd hefyd yn ei chael yn anodd siarad ar y ffôn, ni waeth beth oedd eu rhyw, oedran, neu statws priodasol. Yn y cyfamser, y rhai hynny heb unrhyw gymwysterau oedd fwyaf tebygol o adrodd am anawsterau dros y ffôn (75%). Ymhlith y cyfranogwyr a oedd yn profi anawsterau wrth ddarllen llythyrau neu ddogfennau ffurfiol, roedd 66% hefyd yn ei chael yn anodd llenwi ffurflenni swyddogol. Roedd merched ychydig yn fwy tebygol na dynion o adrodd am anawsterau wrth lenwi ffurflenni (71% o'i gymharu â 60%). Y grŵp 16-24 oed oedd yn profi'r lleiaf o anawsterau (56%) a'r grŵp 45-64 oed oedd yn profi'r mwyaf (75%). Ymatebwyr sengl oedd y rhai lleiaf tebygol o adrodd am anawsterau (50%) o gymharu â'r rhai hynny a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil (70%) a'r rhai hynny a oedd wedi gwahanu, wedi ysgaru neu'n weddwon (67%). Roedd gwahaniaethau addysgol yn sylweddol: roedd 91% o'r rhai hynny heb unrhyw gymwysterau wedi nodi anawsterau wrth gwblhau ffurflenni swyddogol o gymharu â 30% o ymatebwyr gyda gradd neu uwch.

Ffigur 4.5.3: Sgiliau iaith Saesneg gyda demograffeg (parhad)



O ran gweithgarwch economaidd, roedd cyfranogwyr a oedd yn weithgar yn economaidd wedi nodi llai o anawsterau Saesneg ar draws yr holl sefyllfaoedd, ac yn yr un modd, roedd y rhai hynny mewn gwaith yn llai tebygol o gael problemau wrth ddefnyddio Saesneg. Ymhlith y cyfranogwyr hynny a ddywedodd eu bod yn profi anhawster wrth siarad Saesneg mewn sefyllfaoedd o ddydd i ddydd, fe wnaethant i gyd hefyd nodi eu bod yn ei chael yn anodd siarad Saesneg ar y ffôn, waeth beth fo'u statws economaidd neu gyflogaeth. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd yn ei chael yn anodd darllen llythyrau neu ddogfennau os oeddent yn ei chael yn anodd llenwi ffurflenni swyddogol. Roedd anawsterau'n fwy cyffredin ymhlith ymatebwyr economaidd anweithgar (75% yn erbyn 60%), ac yn yr un modd ymhlith y rhai hynny a oedd yn ddi-waith (75% yn erbyn 56%).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi profi unrhyw fath o anawsterau iaith Saesneg, boed hynny'n siarad mewn sefyllfaoedd bob dydd, siarad ar y ffôn, darllen llythyrau neu ddogfennau ffurfiol, neu lenwi ffurflenni swyddogol, pa gamau yr oeddent wedi eu cymryd i wella eu Saesneg ers cyrraedd y DU. Caniatwyd nodi mwy nag un ymateb. Roedd 26 o gyfranogwyr wedi mynychu dosbarth neu gwrs Saesneg, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Roedd nifer debyg (22) wedi defnyddio adnoddau ar-lein fel apiau, fideos, a dim ond naw oedd wedi mynychu grŵp sgwrsio anffurfiol.


Tabl 4.5.1: Beth mae ymatebwyr wedi'i wneud i geisio gwella eu Saesneg

	Cyfanswm	%
--	----------	---

Ydw - wedi mynychu dosbarth neu gwrs (wyneb yn wyneb neu ar-lein)	26	14
Ydw - wedi mynychu grŵp anffurfiol neu sesiwn sgwrsio	9	4.8
Ydw - wedi defnyddio ap, fideo neu adnodd ar-lein arall	22	11.8
Nac ydw	4	2.2

Dyweddod 4 cyfranogwyr nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i wella eu Saesneg ers cyrraedd y DU. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys *ddim yn teimlo'r angen i wella* (1), *diffyg dosbarth Saesneg addas gerllaw* (1), a *gorbryder neu ddiffyg hyder* (1). Roedd dau gyfranogwr arall wedi dewis *Rhesymau eraill* dros beidio â mynychu dosbarth Saesneg.

Ffigur 4.5.4: Rhesymau dros beidio â mynychu dosbarthiadau Saesneg



Sgiliau a Dosbarthiadau Cymraeg

Roedd llai na 2% o'r ymatebwyr wedi nodi mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf, gyda bron pawb arall yn ateb "Na" i'r cwestiwn hwn. Dywedodd ychydig dros hanner y sampl (55%) nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i wella eu Cymraeg ers cyrraedd y DU. Er nad oedd y rhan fwyaf yn dysgu Cymraeg, roedd bron i chwarter wedi defnyddio ap, fideo neu adnoddau eraill ar-lein i wneud hynny,


Tabl 4.5.2: Beth mae ymatebwyr wedi'i wneud i geisio gwella eu Cymraeg

Cyfanswm %

Ydw - wedi mynychu dosbarth neu gwrs (wyneb yn wyneb neu ar-lein)	15	8.1
Ydw - wedi mynychu grŵp anffurfiol neu sesiwn sgwrsio	4	2.2
Ydw - wedi defnyddio ap, fideo neu adnodd ar-lein arall	44	23.7
Nac ydw	103	55.4

Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un rheswm dros beidio â cheisio gwella eu Cymraeg. Y rheswm mwyaf cyffredin, a nodwyd gan 68 o ymatebwyr, oedd dim angen i ddysgu'r iaith. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys bod yn rhy brysur (22), ddim yn gwybod am ddosbarthiadau Cymraeg ar gael (12), diffyg hyder (11), dim dosbarthiadau agos gerllaw (8), rhwystrau ariannol (7), diffyg cludiant (6). Dewiswyd "Arall" gan ddau gyfranogwr.

Ffigur 4.5.5: Rhesymau dros beidio â mynychu dosbarthiadau Cymraeg



Er nad yw'r Gymraeg yn iaith sy'n cael ei siarad yn gyffredin ymhlith ymfudwyr o Hong Kong, fe allai barhau i chwarae rhan ystyrlon yn y dirwedd integreiddio ehangach yng Nghymru. Mae'r *Fframwaith Integreiddio Mudwyr* gan Lywodraeth Cymru yn pwysleisio bod integreiddio'n broses ddwy ffordd, gan amlygu y gall y Gymraeg a'r Saesneg gefnogi cyfranogiad llawnach ym mywyd cymdeithasol a dinesig (Llywodraeth Cymru 2024). Mae ymchwil hefyd yn nodi bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fwyfwy fel adnodd ar gyfer cynhwysiant, gan helpu i feithrin synnwyr o berthyn ac amgylchedd croesawgar ar gyfer newydd-ddyfodiaid pan gaiff ei chyflwyno drwy ddulliau cefnogol a sensitif i ddiwylliant (Lewis et al. 2023). Mae'r canfyddiadau bod llawer o ymfudwyr yn ystyried nad oes angen ymarferol i ddysgu Cymraeg yn gyson â gwaith ymchwil presennol o ran bod faint sy'n

ymgyfryd â dysgu iaith leiafrifol yn dibynnu ar ymwybyddiaeth yr ymfudwyr o gyfleoedd, budd canfyddedig, a hygyrchedd llwybrau dysgu.

4.6 Statws a Phryderon Iechyd


Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio eu hiechyd yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf (37%) ei fod yn weddol (Tabl 4.6.1). Nododd 32% bod eu hiechyd yn dda a dywedodd 23% o'r ymatebwyr bod eu hiechyd yn ardderchog neu'n dda iawn. Dim ond 7% o ymatebwyr oedd yn ystyried bod eu hiechyd cyffredinol yn wael.

Tabl 4.6.1: Statws iechyd cyffredinol a adroddir gan yr unigolyn


	Cyfanswm	%
Rhagorol	6	4.3
Da iawn	26	18.7
Da	45	32.4
Gweddol	51	36.7
Gwael	9	6.5
Mae'n well gen i beidio â dweud	2	1.4
Cyfanswm	139	100

Wrth ddadansoddi yn ôl demograffeg (Ffigur 4.6.1), roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhywiau. Er i 11% o ddynion nodi bod eu hiechyd yn rhagorol, ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr benywaidd bod eu hiechyd yn rhagorol. Nododd 51% o ferched iechyd gweddol i wael mewn cyferbyniad â 32% o ddynion. O ran gwahaniaeth oedran, yn unol â'r disgwyl, mae ymatebwyr iau yn tueddu i fod yn fwy tebygol o adrodd am iechyd da iawn o gymharu â grwpiau oedran hŷn, Er nad yw'n ymddangos bod statws iechyd cyffredinol yn amrywio rhyw lawer rhwng ymatebwyr sengl a phriod, adroddodd gyfran uwch o'r rhai hynny a oedd wedi ysgaru, wedi gwahanu neu'n weddwon am iechyd gweddol neu wael. Gweler canrannau manwl yn Nhabl A1 yn yr Atodiad. Gwelwyd cyfran uwch o ymatebwyr gyda chymhwyster gradd neu uwch yn datgan bod eu hiechyd yn dda iawn o gymharu â'r rhai hynny a oedd yn llai cymwys. Mewn cyferbyniad, nid yw'n ymddangos bod anweithgarwch economaidd neu ddiffyg gwaith yn gysylltiedig â statws iechyd cyffredinol.

Ffigur 4.6.1: Statws iechyd cyffredinol yn ôl demograffeg



Ffigur 4.6.2: Statws iechyd cyffredinol yn ôl gweithgaredd economaidd a chyflogaeth



Pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt gyflyrau iechyd a oedd yn eu cyfyngu wrth wneud gweithgareddau cymedrol (e.e. symud bwrdd, gwthio sugnwr llwch, bowlïo neu chwarae golff), dywedodd 77% nad oeddent wedi'u cyfyngu o gwbl a dywedodd 81% yr un peth am ddringo sawl rhes o risiau. O ran iechyd corfforol a gweithgareddau dyddiol, dim ond 15% ddywedodd eu bod wedi cyflawni llai "weithiau" yn y 4 wythnos ddiwethaf oherwydd eu hiechyd corfforol.

Tabl 4.6.2: Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu'r ymatebwyr wrth wneud gweithgareddau cymedrol

	Cyfanswm	%
Ydi, yn cyfyngu'n arw	5	3.6
Ydi, yn cyfyngu ychydig	22	15.9
Na, ddim yn cyfyngu o gwbl	106	76.8
Mae'n well gen i beidio â dweud	5	3.6
Cyfanswm	138	100


Tabl 4.6.3: Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu'r ymatebwyr wrth ddringo sawl rhes o risiau

	Cyfanswm	%
Ydi, yn cyfyngu'n arw	3	2.2
Ydi, yn cyfyngu ychydig	19	14.2
Na, ddim yn cyfyngu o gwbl	109	81.3
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	2.2
Cyfanswm	134	100


Tabl 4.6.4: Iechyd corfforol a gweithgareddau dyddiol

	Cyfanswm	%
Drwy'r amser	2	1.4
Y rhan fwyaf o'r amser	6	4.3
Weithiau	20	14.5
Ychydig o'r amser	51	37.0
Ddim o gwbl	56	40.6
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	2.2
Cyfanswm	138	100

Ffigur 4.6.3: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i iechyd corfforol a demograffeg



Ffigur 4.6.4: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i iechyd corfforol gyda statws economaidd a chyflogaeth



Pan ofynnwyd iddynt am y problemau emosiynol a'r gweithgareddau dyddiol, dywedodd 20% o'r ymatebwyr eu bod wedi cyflawni llai "weithiau" yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf oherwydd problemau emosiynol fel teimlo'n isel neu'n bryderus.


Tabl 4.6.5: Problemau emosiynol a gweithgareddau dyddiol

	Cyfanswm	%
Drwy'r amser	2	1.4
Y rhan fwyaf o'r amser	9	6.5
Weithiau	28	20.3
Ychydig o'r amser	46	33.3
Ddim o gwbl	51	37.0
Mae'n well gen i beidio â dweud	2	1.4
Cyfanswm	138	100


Wrth ddadansoddi yn ôl demograffeg, nid oes amrywiad amlwg rhwng y rhywiau, ac nid yw'r canlyniadau yn amrywio yn ôl gweithgarwch economaidd a statws cyflogaeth. Mewn cyferbyniad, gellir gweld gwahaniaeth oedran sylweddol (Ffigur 4.6.5 a Thabl A3). Dywedodd 20% o'r grŵp oedran iau (16-24) eu bod yn profi problemau emosiynol "y rhan fwyaf o'r amser" a dywedodd 40% arall eu bod yn eu profi "weithiau". Efallai nad yw'n syndod fod y cyfranogwyr iau wedi nodi lefelau uwch o broblemau emosiynol neu iechyd meddwl. Mae swmp cynyddol o dystiolaeth yn dangos bod y camau a gynhaliwyd yn 2019 i fynd i'r afael â'r protestiadau o blaid democratiaeth yn Hong Kong wedi creu baich iechyd meddwl ar draws y boblogaeth, gyda chynnydd sylweddol mewn symptomau straen wedi trawma ac iselder ymhlith oedolion, ac enwedig ymhlith Gen Z (18-27) sy'n profi'r lefelau uchaf o straen, gorbryder a PTSD, er eu bod wedi profi llai o ddigwyddiadau trawmatig yn eu bywydau o gymharu â chenedlaethau hŷn. (HKSYU 2025). Daeth astudiaeth carfan fawr yn The Lancet (Ni et al., 2020) hefyd i'r casgliad bod yr aflonyddwch yn 2019 - 2020 wedi achosi cynnydd mewn PTSD ac iselder ar draws y boblogaeth, gyda grwpiau iau ymhlith y rhai a oedd wedi'u heffeithio fwyaf. Gellir tybio bod cyfran o ddyfodiaid BN(O) yng Nghymru, yn enwedig oedolion iau, yn profi symptomau yn gysylltiedig â thrawma ar ôl mudo, gan lywio eu hiechyd, defnydd o wasanaethau ac integreiddio'n gyffredinol.

Roedd ymatebwyr heb gymwysterau hefyd yn profi problemau emosiynol yn fwy aml, patrwm sy'n cyd-fynd â thystiolaeth ehangach yn cysylltu cyrhaeddiad addysgol isel ac iechyd meddwl gwael. Mae ymchwil o Hong Kong (Sharif and Wenjin 2024) yn dangos bod unigolion â lefelau addysg is yn wynebu mwy o rwystrau wrth geisio cymorth, lefelau uwch o orbyder ac iselder, a llai o allu i lywio systemau iechyd meddwl, gan eu gwneud yn fwy agored i ofid emosiynol parhaus.

Ffigur 4.6.5: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i broblemau emosiynol yn ôl demograffeg



Ffigur 4.6.6: Wedi cyflawni llai o ganlyniad i broblemau emosiynol yn ôl gweithgarwch economaidd a chyflogaeth



Tabl 4.6.6: Teimlo'n isel

	Cyfanswm	%
Drwy'r amser	4	2.9
Y rhan fwyaf o'r amser	9	6.6
Weithiau	37	27.0
Ychydig o'r amser	53	38.7
Ddim o gwbl	31	22.6
Mae'n well gen i beidio â dweud	3	2.2
Cyfanswm	137	100


O ran unrhyw amhariad corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd hirdymor, nododd 17% gyflwr dros gyfnod o 12 mis. Mae hyn yn llawer is na'r cyfartaledd yng Nghymru (21%) neu'r DU (25%) (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin 2025, Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023). Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'r hyn a elwir yn "effaith ymfudwr iach". Mae'r rhai sydd wedi mudo i'r DU yn llawer llai tebygol o adrodd am broblemau iechyd hirdymor o gymharu â'r boblogaeth a anwyd yn y DU (Migration Observatory 2020, Garrington 2025). Ar ben hynny, mae ymfudwyr BN(O) gryn dipyn yn fwy addysgedig na grwpiau eraill o ymfudwyr a'r rhai a anwyd yn y DU (Chan 2025). Mae addysg uwch yn gyson yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd hirdymor gwell a llai o achosion o anableddau ar draws astudiaethau epidemiolegol. Yn ogystal, mae ysgolheictod ymfudo yn dangos bod ymfudwyr rhyngwladol yn boblogaeth hunan-ddewisol, wedi'i gwyro tuag at y rhai hynny gydag iechyd sylfaenol gwell, adnoddau ariannol, a'r gallu corfforol i adleoli (Ferrara et al., 2025). Mae'r prosesau dethol hyn yn gyson â'r llwybr fisa BN(O), sy'n gofyn bod ymfudwyr yn hunan-gynhaliol heb fynediad at fudd-daliadau'r wladwriaeth (h.y. Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus).

Tabl 4.6.7: Amhariad corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd hirdymor

	Cyfanswm	%
Oes	24	17.4
Nac oes	110	79.7
Mae'n well gen i beidio â dweud	4	2.9
Cyfanswm	138	100

4.7 Boddhad gyda Bywyd a Mynediad at Wasanaethau


Ffigur 4.7.1: Boddhad yr ymatebwr gyda bywyd yn gyffredinol




Pan ofynnwyd iddynt am eu boddhad gyda bywyd yn gyffredinol, dywedodd 36% eu bod yn fodlon gan fwyaf, roedd 30% yn eithaf bodlon a 10% yn gwbl fodlon. Roedd llai na 10% yn anfodlon, gyda 3% yn gwbl anfodlon a 6% yn eithaf anfodlon, ac fe nodwyd gan 14% nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon.

Cyfrifwyd sgorau cymedrig boddhad gyda bywyd ar draws grwpiau demograffeg hefyd, gyda sgorau uwch yn arwydd o fwy o foddhad. Roedd dynion ychydig yn fwy bodlon â'u bywydau na merched, ac roedd lefelau boddhad cyfranogwyr hŷn yn tueddu i fod yn uwch na chyfranogwyr iau. Mae'r patrwm hwn yn cyd-fynd ag ymchwil sy'n dangos bod boddhad gyda bywyd yn dueddol o gynyddu gydag oed ymysg poblogaethau mudwyr (Baykara-Krumme and Platt 2016). Nid oes patrwm clir rhwng lefel addysg a boddhad gyda bywyd. O ran gweithgarwch economaidd, cofnodwyd yr un sgorau boddhad cymedrig ar gyfer ymatebwyr a oedd yn weithgar yn economaidd a'r rhai a oedd yn anweithgar yn economaidd (5.2). Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr di-waith yn llai bodlon â'u bywydau (4.6) o gymharu â chyfranogwyr a oedd mewn gwaith (5.2), canfyddiad sy'n adlewyrchu tystiolaeth ehangach sy'n cysylltu cyflogaeth gyda chanlyniadau integreiddio gwell a lles ymhlith ymfudwyr (Llywodraeth Cymru 2024; Lewis et al. 2023).

Ffigur 4.7.2: Sgôr gymedrig boddhad bywyd yn gyffredinol gyda demograffeg




Ffigur 4.7.3: Sgôr gymedrig boddhad bywyd yn gyffredinol gyda gweithgarwch economaidd a chyflogaeth



Mynediad at Wasanaethau

Mae mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn ddangosydd allweddol o integreiddio mudwyr, gan adlewyrchu'r graddau y gall newydd-ddyfodiaid ymgysylltu â systemau iechyd, addysg, diogelwch, a chefnogaeth gymunedol hanfodol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa wasanaethau cyhoeddus yr oeddent wedi eu defnyddio ers cyrraedd y DU, gydag opsiwn i ddewis mwy nag un ateb. Roedd y mwyafrif, 68% (127) wedi mynd at Feddyg Teulu, gan adlewyrchu rôl ganolog gofal sylfaenol wrth gefnogi anghenion iechyd newydd-ddyfodiaid. Roedd bron i hanner (87) wedi mynd at ddeintydd a 45% (83) wedi mynd i'r ysbyty, gan ddangos ymgysylltiad cymedrol gyda gofal iechyd eilaidd. Roedd cyfran lai, ychydig dros 10% (21) wedi defnyddio'r heddlu fel gwasanaeth cyhoeddus. Yn nodedig, nid oedd 7% (13) wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau cyhoeddus a restrwyd. Mae'r patrwm hwn o ddefnydd gwasanaeth yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach sy'n dangos mai gwasanaethau gofal iechyd yw'r pwynt cyswllt cyntaf a'r mwyaf aml ar gyfer ymfudwyr fel arfer, a bod ymgysylltiad â gwasanaethau eraill yn amrywio yn dibynnu ar angen, ymwybyddiaeth, a hygyrchedd (Llywodraeth Cymru 2024).

Ffigur 4.7.4: Mynediad at wasanaethau




Wrth edrych ar bwy a oedd wedi cael mynediad at y gwasanaethau hyn, roedd y canfyddiadau'n dangos bod cyfrannau tebyg o ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd wedi adrodd am gael mynediad at Feddyg Teulu, ysbyty, deintydd a'r heddlu ers cyrraedd y DU. Roedd ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o adrodd am gael mynediad at Feddyg Teulu, ysbyty neu ddeintydd ers cyrraedd y DU, o gymharu â'u cyfatebwyr iau. Er enghraifft, roedd 83% o'r rhai hynny rhwng 16 a 24 mlwydd oed wedi mynd at Feddyg Teulu, o gymharu â 60% o'r rhai hynny 65 oed a hŷn. Ymatebwyr a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig oedd fwyaf tebygol o adrodd am gael mynediad at wasanaethau ers cyrraedd y DU, ar wahân i wasanaethau Meddyg Teulu a'r heddlu a oedd yn cael eu defnyddio'n fwyaf aml gan y rhai hynny a oedd wedi gwahanu / wedi ysgaru / yn weddwon ac yn sengl, erioed wedi priodi yn y drefn honno. Roedd tua 80% o'r rhai hynny a oedd wedi gwahanu / wedi ysgaru / yn weddwon wedi adrodd am ddefnyddio Meddyg Teulu ers cyrraedd y DU


ac roedd bron i chwarter y rhai hynny a oedd yn sengl ac erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil a gydnabyddir yn gyfreithiol wedi adrodd am gysylltu â'r heddlu ers cyrraedd y DU.

Nid oedd unrhyw un o'r cyfranogwyr a oedd wedi gwahanu / wedi ysgaru / neu'n weddwon wedi mynd at ddeintydd neu'r heddlu ers cyrraedd y DU. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr gyda chymwysterau Safon Uwch neu gyfwerth wedi adrodd am ddefnyddio'r gwasanaeth heddlu ers cyrraedd y DU. Wrth edrych ar weithgarwch economaidd, roedd y cyfranogwyr hynny a oedd yn weithgar yn economaidd yn fwy tebygol o adrodd am gysylltu â'r heddlu (13%) ers cyrraedd y DU o gymharu â'r rhai hynny a oedd yn anweithgar yn economaidd (7% yn y drefn honno). Fodd bynnag, nodwyd gan y rhai hynny a oedd yn economaidd anweithgar eu bod wedi cysylltu â Meddyg Teulu yn amlach (74%) o gymharu â'r rhai hynny a oedd yn weithgar yn economaidd (65%). Roedd mynediad at wasanaethau ers cyrraedd y DU yn debyg rhwng y rhai hynny a oedd yn gyflogedig a'r rhai hynny a oedd yn ddi-waith, er i fwy o gyfranogwyr cyflogedig (14%) nodi eu bod wedi defnyddio gwasanaethau'r heddlu ers cyrraedd y DU o gymharu â'r rhai hynny a oedd yn ddi-waith (7%).

Ffigur 4.7.5: Mynediad at wasanaethau gyda demograffeg




Ffigur 4.7.6: Mynediad at wasanaethau gyda statws economaidd a chyflogaeth



O'r rhai hynny nad oedd wedi ceisio gwasanaeth Meddyg Teulu, dywedodd y mwyafrif (9%) bod hyn oherwydd nad oedd arnyn nhw angen mynediad at y gwasanaeth. Yn yr un modd, y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â mynd i'r ysbyty, at y deintydd neu at yr heddlu oedd oherwydd nad oedd gan y cyfranogwyr angen mynediad at y gwasanaeth. Roedd hefyd yn ymddangos bod sgiliau iaith Saesneg yn rhwystr i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd 1% nad ydynt yn siarad nac y darllen Saesneg yn ddigon da i fynd at Feddyg Teulu, nododd 2% hyn fel rheswm dros beidio â mynd i'r ysbyty, 3% fel rheswm dros beidio â mynd at y deintydd a 2% fel rheswm dros beidio â defnyddio'r heddlu fel gwasanaeth cyhoeddus. Roedd yn ymddangos bod dylanwad ffrindiau/teulu yn penderfynu pa un a oedd rhai cyfranogwyr yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Nid oedd 2% yn defnyddio'r ysbyty oherwydd bod ffrindiau/teulu wedi dweud wrthynt nad oedd yn wasanaeth da iawn, a dywedodd 2% nad oeddent yn defnyddio'r deintydd am yr un rheswm. Nid oedd 3% yn defnyddio'r heddlu fel gwasanaeth cyhoeddus oherwydd bod ffrindiau/teulu wedi dweud wrthynt nad oedd yn wasanaeth da iawn.

Ffigur 4.7.7: Rhesymau dros beidio â manteisio ar wasanaethau



Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau fel gofal iechyd, siopau bwyd neu gyfleusterau dysgu pan oedd angen.

Ffigur 4.7.8: Gallu cael mynediad at wasanaethau angenrheidiol




O'r cyfranogwyr hynny nad oedd yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau yr oeddent eu hangen, gofynnwyd iddynt nodi'r holl rhesymau a oedd yn eu hatal rhag cael mynediad atynt. Nododd 8% (15) anawsterau gyda chael apwyntiad, nododd 5% (9) fod gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn brin neu'n annibynadwy a dywedodd 4% (7) nad oedd ganddynt fynediad at gar, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr.

4.8 Ofn Trosedd

Dywedodd y rhan fwyaf a gymerodd ran (60%) eu bod yn teimlo'n weddol ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hun ar ôl iddi nosi. Dywedodd 10% arall eu bod yn teimlo'n hynod

ddiogel. Dywedodd 15% eu bod yn teimlo ychydig yn anniogel yn cerdded ar eu pen eu hunain ar ôl iddi nosi, ac roedd 4% yn teimlo'n anniogel iawn. Dywedodd 12% nad oeddent byth yn mynd allan wedi iddi nosi.

Ffigur 4.8.1: Ofn cerdded ar eich pen eich hun ar ôl iddi nosi



Roedd cyfran ychydig yn uwch o gyfranogwyr benywaidd (13%) yn teimlo'n ddiogel iawn wrth gerdded ar eu pen eu hunain wedi iddi nosi o gymharu â chyfranogwyr gwrywaidd (7%). Fodd bynnag, roedd merched hefyd yn llawer fwy tebygol o gyfyngu eu symudiadau wedi iddi nosi: nododd 15% nad oeddent *byth* yn mynd allan wedi iddi nosi, a nododd 5% a 18% eu bod yn teimlo'n *anniogel iawn* neu *ychydig yn anniogel* yn y drefn honno, o gymharu â 7%, 2% a 12% o gyfranogwyr gwrywaidd. Mae'r patrwm hwn yn cyd-fynd â swmp sylweddol o waith ymchwil sy'n dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn perthynas ag ofn trosedd a chanfyddiad o risg, gyda merched yn adrodd yn gyson am lefelau is o ddiogelwch canfyddedig er y cyfraddau dioddef is yn gyffredinol (Pain, 2001; Hale, 1996).


Daeth patrymau'n ymwneud ag oedran i'r amlwg hefyd. Nid oedd unrhyw gyfranogwr 16-24 oed neu 65 oed a hŷn yn teimlo'n *ddiogel iawn* yn cerdded ar eu pen eu hunain wedi iddi nosi, a dim ond 11% o'r rhai 25-44 a 45-64 oed oedd yn gwneud hynny. Y grŵp oedran a oedd fwyaf tebygol o gyfyngu eu symudedd wedi iddi nosi oedd y rhai hynny rhwng 16 a 24 oed, nododd 20% nad oeddent byth yn mynd allan wedi iddi nosi. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag astudiaethau sy'n dangos bod oedolion iau ac unigolion hŷn yn aml yn nodi eu bod y teimlo'n fwy diamddiffyn mewn lleoliadau cyhoeddus, er bod hynny am wahanol resymau: oedolion ifanc oherwydd diffyg profiad a phryderon cymdeithasol, ac

oedolion hŷn oherwydd pryderon am wendid corfforol neu gyswllt â throstedd (Moore & Shepherd, 2007; Jackson, 2009).


Mae patrymau yn ôl statws economaidd-gymdeithasol yn brawf pellach o ddyraniad anwastad diogelwch canfyddedig. Ymhlith cyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, dywedodd 40% nad oeddent byth yn mynd allan wedi iddi nosi, ac ni wnaeth unrhyw un nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth bod anfantais economaidd-gymdeithasol a mynediad cyfyngedig at adnoddau (megis cludiant preifat neu gymdogaethau mwy diogel) yn amlygu bregusrwydd canfyddedig ac yn cyfyngu symudedd (Farrall, Jackson & Gray 2009). Roedd statws cyflogaeth hefyd yn llywio canfyddiadau: roedd cyfranogwyr a oedd yn weithgar yn economaidd yn fwy tebygol o deimlo'n *ddiogel iawn* (12%) na'r rhai hynny a oedd yn economaidd anweithgar (4%) ac roeddent yn llai tebygol o adrodd am osgoi mynd allan wedi iddi nosi. Mae hyn yn adleisio gwaith ymchwil blaenorol yn dangos y gall cyflogaeth feithrin mwy o hyder, cyswllt rheolaidd â manau cyhoeddus, a chysylltiadau cymdeithasol, ffactorau sy'n gysylltiedig â lleihau ofn trosedd (Killias & Clerici, 2000).

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu patrymau cymdeithasol sefydledig yn y llenyddiaeth: mae canfyddiadau o ddiogelwch gyda'r nos wedi'u strwythuro gan oedran, statws economaidd-gymdeithasol, a sefyllfa'r farchnad lafur. Maent hefyd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o brofiadau o fewn y garfan o ymfudwyr a phwysigrwydd ystyried ffactorau croestoriadol wrth archwilio teimladau o ddiogelwch yn y parth cyhoeddus.

Ffigur 4.8.2: Teimlo'n ddiogel yn mynd allan wedi iddi nosi yn ôl demograffeg



Ffigur 4.8.3: Teimlo'n ddiogel yn mynd allan wedi iddi nosi yn ôl statws economaidd a chyflogaeth




Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd

Dywedodd y mwyafrif (61%) *nad* oeddent yn poeni am y posibilrwydd y byddai trosedd yn effeithio arnyn nhw neu aelodau o'u haelwyd. Ymhlith y rhai hynny a wnaeth fynegi pryder, disgrifiwyd hyn fel amheuan o bryd i'w gilydd gan ychydig o dan hanner (46%), roedd 41% yn poeni rhywfaint ac 13% yn ei ystyried yn bryder mawr. Mae'r patrymau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil sy'n dangos bod ofn trosedd fel arfer wedi'i ddsbarthu ar hyd continwmm, gyda gorbryder achlysurol neu lefel isel yn fwy cyffredin na phryder cronig (Hale, 1996; Farrall, Jackson & Gray, 2009).

Ffigur 4.8.4: Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd



Ffigur 4.8.5: Canran yr ymatebwyr sy'n poeni am fod yn ddioddefwr trosedd




Roedd gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn amlwg. Roedd ymatebwyr benywaidd (44%) yn fwy tebygol o nodi pryder am fod yn ddioddefwr nag ymatebwyr gwrywaidd (34%), sy'n gyson â chanfyddiadau hirsefydlog bod merched yn tueddu i nodi lefelau uwch o ofn troseddau er y risgiau is, yn gyffredinol, o fod yn ddioddefwr troseddau treisgar (Pain, 2001; Jackson, 2009). Roedd patrymau oedran yn dilyn tueddiadau tebyg: cyfranogwyr rhwng 25 a 44 oed oedd â'r gyfran uchaf yn mynegi pryder (45%), tra bod llai na 15% o'r

rhai hynny dros 65 oed wedi nodi pryder. Mae patrymau o'r fath yn adlewyrchu ymchwil sy'n dangos bod canfyddiadau o fregusrwydd ar eu huchaf ymhlith oedolion iau yn ceisio cydbwysu gwaith, teulu, a symudedd trefol, tra bod oedolion hŷn yn aml yn mabwysiadu arferion sy'n lleihau risg posibl (Moore & Shepherd, 2007).


Roedd statws priodasol hefyd yn llywio lefelau pryder. Roedd cyfranogwyr a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil (43%) yn fwy tebygol o adrodd am boeni na'r rhai hynny a oedd yn sengl ac erioed wedi priodi (33%), ac nid oedd unrhyw un o'r rhai a oedd wedi gwahanu, wedi ysgaru neu'n weddwon wedi adrodd am bryderon o'r fath. Mae astudiaethau blaenorol yn awgrymu y gallai unigolion sy'n gyfrifol am ddibynyddion neu gyd-breswylwyr brofi mwy o bryder oherwydd dyletswydd ganfyddedig i amddiffyn eraill (Hollway & Jefferson, 1997).

Roedd cysylltiad cryf rhwng statws addysgol ac economaidd a phryderon am drosedd hefyd. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr gyda gradd o brifysgol yn mynegi pryder, o gymharu â llai na 15% o'r rhai hynny gyda chymwysterau ar lefel TGAU. Mae'r patrwm gwrthgynhyrchiol hwn, lle mae cyrhaeddiad addysgol uwch yn cyfateb â mwy o boeni, wedi cael ei arsylwi mewn astudiaethau eraill yn cysylltu ymwybyddiaeth o risgiau cymdeithasol a sylw yn y cyfryngau gyda chanfyddiadau uwch o fygythiad (Lee, 2011). Roedd y rhai hynny a oedd yn economaidd weithgar yn fwy tebygol ddweud eu bod yn poeni na chyfranogwyr economaidd anweithgar, a'r rhai hynny a oedd mewn gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni na'r rhai hynny a oedd yn ddi-waith. Mae cyflogaeth, yn enwedig mewn rolau dinesig neu rolau sy'n ymdrin â'r cyhoedd, yn gysylltiedig â mwy o gyswllt ag adroddiadau trosedd lleol, gweithgareddau arferol mewn mannau cyhoeddus, ac ymwybyddiaeth ehangach o'r risgiau posibl, ac fe all y rhain i gyd godi lefelau pryder (Killias & Clerici, 2000; Warr, 2000).

Ffigur 4.8.6: Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd yn ôl demograffeg




Ffigur 4.8.7: Poeni am fod yn ddioddefwr trosedd yn ôl statws economaidd a chyflogaeth



Ar y cyfan, mae'r patrymau hyn yn cyd-fynd yn agos ag ymchwil cymdeithasegol a throseddegol sefydledig sy'n dangos bod canfyddiadau o ran perygl trosedd yn cael eu siapiro gan rywedd, oedran, cyfrifoldebau yn y cartref, addysg, a sefyllfa'r farchnad lafur. Maent hefyd yn amlygu'r hetrogenedd o fewn y boblogaeth o ymfudwyr BN(O), gan ddangos sut y mae ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol yn croesi ar draws ei gilydd i ddylanwadu ar deimladau o ddiogelwch a bregusrwydd wrth i unigolion lywio drwy fywyd mewn gwlad newydd.

4.9 Rhesymau dros fudo a Bwriad i Ymgartrefu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pam y gwnaethant symud i'r DU a Chymru a chawson nhw eu hannog i enwi cymaint o resymau ag oedd yn berthnasol. Nododd y rhan fwyaf (55%) eu bod wedi symud oherwydd rhesymau gwleidyddol. Roedd yr ail brif reswm (32%) yn ymwneud â symud gyda theulu ac roedd 25% eisiau addysg well i'w plant. Roedd 23% arall eisiau byw mewn gwlad arall / y DU.



Mae'r ffeithlun yn dangos bod ymatebwyr yn dewis y DU yn bennaf am ei manteision strwythurol a hanesyddol, yn cynnwys y cysylltiad hanesyddol â Hong Kong (22%), hygyrchedd system fewnfudo'r DU (19%), a'r budd o amgylchedd lle siaredir Saesneg (12%). Mewn cyferbyniad, mae'r rhesymau dros ddewis Cymru wedi'u siapio'n fwy gan amodau byw lleol, gydag ymatebwyr yn pwysleisio bod Cymru'n fwy croesawgar (16%) ac yn fwy diogel (12%) na rhannau eraill o'r DU. Mae rhwydweithiau cymdeithasol o bwys yn y ddau gyd-destun (10% ar gyfer y DU, 9% ar gyfer Cymru), ond mae gan addysg rôl gryfach mewn penderfyniadau i symud i'r DU (12%) nac i Gymru (5%).

Bwriad i Ymgartrefu

Pan ofynnwyd iddynt am eu bwriad i ymgartrefu, dywedodd dri chwarter yr ymatebwyr eu bod yn disgwyl aros a byw yn y DU. Dywedodd oddeutu 14% eu bod yn disgwyl symud rhwng y DU a Hong Kong yn rheolaidd, yn debygol oherwydd cysylltiadau teuluol cryf. Ychydig llai na 5% a ddywedodd eu bod yn dymuno dychwelyd i Hong Kong. Roedd 6% arall yn bwriadu symud i wlad arall. Ymhlith y saith a ddywedodd eu bod yn disgwyl symud yn ôl i Hong Kong, dim ond un oedd yn bwriadu symud yn ôl yn y 12 mis nesaf a dau arall yn y 3-4 blynedd nesaf, a thri arall heb amserlen benodol mewn golwg. Yn yr un modd, ymhlith y naw o ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn symud i wlad arall, nid oedd pump ohonynt yn gwybod yn union pryd y byddent yn gwneud hynny. Pan ofynnwyd pa wlad yr oeddent yn bwriadu symud iddi, dewisodd dri pherson Japan. Y gwledydd eraill a nodwyd oedd Canada, Awstralia ac Iwerddon.

Tabl 4.9.1: Bwriadau symud

	Cyfanswm	%
Rwy'n disgwyl aros a byw yn y DU	111	75.0
Rwy'n disgwyl symud rhwng y DU a Hong Kong yn rheolaidd	21	14.2
Rwy'n byw yma ar hyn o bryd ond yn disgwyl dychwelyd i fyw yn Hong Kong yn y dyfodol	7	4.7
Rwy'n byw yma ar hyn o bryd ond yn disgwyl symud i fyw i wlad arall yn y dyfodol	9	6.1
Cyfanswm	148	100

Pan ofynnwyd pam y byddent yn dychwelyd i Hong Kong, yr awydd i fod yn agosach at deulu neu ffrindiau oedd y prif reswm, ac yna cyflogaeth, anhawster integreiddio a chostau byw yn y DU, a'r tywydd. Yn ddiddorol, y prif reswm dros symud i wlad arall oedd y tywydd, ac yna cyflogaeth, tai a chostau byw yn y DU. Yn ddiddorol iawn hefyd, ni ddywedodd unrhyw un mai'r datblygiadau gwleidyddol yn Hong Kong oedd y rheswm.

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn eu hatal rhag dychwelyd i Hong Kong yn y 12 mis nesaf, dywedodd bump o ymatebwyr y byddent yn hoffi aros nes cael caniatâd amhenodol i aros neu ddinasyddiaeth y DU yn gyntaf. Roedd rhesymau eraill a nodwyd yn cynnwys pryderon am ddod o hyd i le i fyw (3), cyflogaeth (2), costau byw (2), diogelwch (2), yn Hong Kong.

Cyrraedd a Symud o fewn y DU

Darparodd 134 o ymatebwyr wybodaeth am nifer y dinasoedd, trefi neu bentrefi yr oeddent wedi byw ynddynt ers cyrraedd y DU. Roedd y mwyafrif (79%) wedi byw mewn un lleoliad yn unig yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 18% wedi byw mewn dau leoliad, ac roedd 2% ac 1% wedi byw mewn tri a phedwar lleoliad yn y drefn honno.

Tabl 4.9.2: Nifer y lleoedd yr oedd cyfranogwyr wedi byw ynddynt yn y DU

	Cyfanswm	%
1	106	79.1
2	24	17.9
3	3	2.2
4	1	0.7
Cyfanswm	134	100

Darparodd 123 o ymatebwyr ddata ar god post y lle cyntaf iddynt fyw ynddo yn y DU. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (81%) god post ardal Caerdydd. Roedd codau post eraill yng Nghymru yn cynnwys Abertawe (7%) a Chasnewydd (3%). Y tu allan i Gymru, nododd yr ymatebwyr eu wedi byw yn y lleoliadau canlynol gyntaf ar ôl cyrraedd y DU; Bryste (2%), Guildford (2%), Llundain (2%) yn ogystal ag Aberdeen (1%), Caeredin (1%), Glasgow (1%), Manceinion (1%) a Reading (1%). Dywedodd ychydig dros hanner o'r ymatebwyr (53%) eu bod wedi aros yn eu lleoliad cychwynnol, tra bod y 47% arall wedi symud i fannau eraill yn y DU.

Tabl 4.9.3: Cyrchfan gyntaf yn y DU

Dinas	N	%
Caerdydd	99	80.5
Abertawe	9	7.3
Casnewydd	4	3.3
Bryste	2	1.6
Caeredin	1	0.8
Aberdeen	1	0.8
Guilford	2	1.6
Llundain	2	1.6
Manceinion	1	0.8
Glasgow	1	0.8
Reading	1	0.8
Cyfanswm	123	100

Er i 64 o gyfranogwyr ddatgan eu bod wedi symud i ail leoliad yn y DU, dim ond 24 o'r ymatebwyr (39%) a ddarparodd god post ar gyfer eu hail gyfeiriad (gweler Tabl A4 yn yr Atodiad). Ymhlith y rhai hynny a atebodd, nododd y rhan fwyaf eu bod yn byw yng Nghaerdydd (83%), gydag un cyfranogwr yr un yn nodi Abertawe (4%), Casnewydd (4%), Bryste (4%) a Llundain (4%). Ni wnaeth pedwar o'r ymatebwyr aros yn eu hail leoliad yn y DU: symudodd dau i Gaerdydd, un i Gasnewydd (ar ôl byw ym Mryste yn flaenorol) ac un i Gaeredin. Roedd mwyafrif yr ymatebion hyn yn nodi bwriad i aros (gweler yr Atodiad - Tabl A5).

Tabl 4.9.4: Bwriadu aros yn y gyrchfan gyntaf

	N	%
Ydw	71	53.4
Nac ydw	62	46.6
Cyfanswm	133	100

Gellir defnyddio'r data hwn ar leoliadau'r DU i ddod i gasgliad am godau post presennol y cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr a oedd wedi symud sawl tro yn aml yn darparu gwybodaeth anghyflawn am godau post neu'n nodi sawl tro heb gynnwys cod post eu cyfeiriad mwyaf diweddar. Lle'r oedd digon o ddata ar gael, ymddengys bod y rhan

fwyaf o'r cyfranogwyr (87%) yn byw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd a 6% arall yn byw yng Nghasnewydd a 6% yn Abertawe.

5 Goblygiadau Polisi

Roedd y cynllun fisa BN(O) a lansiwyd yn 2021 yn galluogi preswylwyr Hong Kong gyda statws BN(O) i fudo i'r DU. Erbyn mis Mawrth 2025, roedd bron i 180,000 o fisas BN(O) wedi cael eu cymeradwyo, gan ei wneud yn un o'r mewnlifau un llwybr mwyaf ar gyfer mudwyr i'r DU. Bu i lawer o newydd-ddyfodiaid ymgartrefu mewn dinasoedd mawr gyda marchnadoedd llafur cryf a sefydlu rhwydweithiau ar gyfer pobl o Hong Kong. Ers 2021, mae Cymru wedi croesawu nifer sylweddol o'r ymfudwyr hyn o Hong Kong fel rhan o'r ymateb dyngarol hwn.

Er nad yw ymfudwyr BN(O) yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, efallai bod sawl elfen o'r polisi Cenedl Noddfa wedi gwneud Cymru'n wlad benodol ddeniadol iddynt. Nod y Genedl Noddfa yw cefnogi mudwyr dan orfod i ailadeiladu eu bywydau drwy ddarparu cymorth tai, addysg Gymraeg/Saesneg, llwybrau cyflogaeth, mynediad at ofal iechyd, a rhaglenni cydlyniant cymunedol. Mae'n hyrwyddo 'integreiddio o'r diwrnod cyntaf', gan alluogi newydd-ddyfodiad i ymgartrefu'n gyflym a chymryd rhan lawn yng nghymdeithas Cymru. Er iddi gynnwys poblogaeth BN(O) lai o gymharu â Lloegr, mae Cymru wedi dod yn lle deniadol i deuluoedd oherwydd y tai fforddiadwy, ansawdd bywyd, ac amgylchedd integreiddio cefnogol (Cheung a Foster, 2023).

Mae heriau cynnar yn parhau, yn enwedig o amgylch cyflogaeth ac iaith, ond mae newydd-ddyfodiaid BN(O) fel arfer yn dod â chyrhaeddiad addysgol uchel, awydd cryf i integreiddio, ac ymrwymiad i setlo'n hirdymor. Mae tystiolaeth o'r Arolwg Panel Ymfudwyr Hong Kong BN(O), sef astudiaeth a ariannwyd gan ESRC dan arweiniad UCL, King's College London, a Phrifysgol Rhydychen, unwaith eto'n pwysleisio'r llwybrau integreiddio eang ac anghenion sy'n newid dros amser. Yn yr un modd, mae ymchwil ansoddol Llywodraeth y DU yn dangos bod canlyniadau integreiddio yn cael eu llunio gan ruglder ieithyddol, rhesymau dros fudo, a hyd preswyliaid. Ar y cyd, mae'r nodweddion hyn yn awgrymu cyfraniad hirdymor sylweddol i Gymru, yn enwedig wrth gefnogi adnewyddu demograffig, cryfhau cyflenwad llafur, a chyfoethogi cymunedau lleol.

Wrth i bobl o Hong Kong sefydlu gwreiddiau hirdymor yng Nghymru, mae'r angen am bolisi cyhoeddus gwybodus ac ymatebol yn dod yn gynyddol bwysig. Mae'r arolwg hwn yn cynnig y dystiolaeth hanfodol sydd ei hangen i siapio ymyriadau wedi'u targedu, gan alluogi sefydliadau'r llywodraeth a sefydliadau partner i gefnogi lles ac integreiddio llwyddiannus pobl o Hong Kong ar draws Cymru. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r goblygiadau polisi allweddol sy'n deillio o'r canfyddiadau.

Cyflogaeth ac Integreiddio Economaidd

Mae'r canfyddiadau ar dangyflogaeth yn dangos sawl maes lle gallai polisi Llywodraeth Cymru wella integreiddio'r farchnad lafur ar gyfer ymfudwyr BN(O) Hong Kong. Yn gyntaf, mae camgymhariad galwedigaethol parhaus yn awgrymu angen am lwybrau sector-

benodol sy'n fwy clir ar gyfer cydnabod cymwysterau tramor, yn enwedig mewn proffesiynau a reoleiddir. Yn ail, mae'r rhwystrau a nodwyd yn ymwneud ag acen a'r iaith Saesneg yn amlygu gwerth ehangu darpariaeth ESOL uwch sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth ac wedi'i theilwra ar gyfer sectorau blaenoriaeth. Yn drydydd, mae'r gynrychiolaeth isel o ymfudwyr BN(O) mewn rolau sector cyhoeddus, er bod y rhain yn gymharol sefydlog ac wedi'u rheoleiddio'n dda, yn awgrymu y gallai ymdrechion recriwtio wedi'u targedu, cynlluniau mentora, a llwybrau profiad gwaith strwythuredig wella mynediad. Yn bedwerydd, mae'r crynhoad o ymfudwyr mewn swyddi sector gwasanaeth ansicr yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhaglen Gwaith Teg Cymru, yn enwedig mewn perthynas â safonau cyflogwyr a gwrth-wahaniaethu. Mae peidio â mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn peri'r risg o wastraffu cronfa werthfawr o dalent nad yw'n cael ei defnyddio i'w photensial llawn, yn enwedig o ystyried strwythurau cefnogi presennol megis [Cymru'n Gweithio](#) ac [I Mewn i Waith Caerdydd](#) ar gyfer pobl o Hong Kong. Yn olaf, byddai gwella aliniad y farchnad lafur ar gyfer y garfan hynod addysgedig hon yn cefnogi nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ran twf economaidd cynhwysol a mynd i'r afael â phrinder gweithlu mewn sectorau gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg.

Tai a Llety

Mae perchnogaeth tai (45% yn berchen yn gyfan gwbl ac 14% yn berchen gyda morgais) ymhell o fewn yr ystod gyfartaledd genedlaethol o 53-65% (Finder UK 2025), efallai'n uwch na'r disgwyl ar gyfer grŵp o ymfudwyr sydd newydd gyrraedd. Fe allai hyn adlewyrchu arbedion da cyn mudo a'r ffaith fod eu proffil demograffig yn aml yn weithwyr proffesiynol canol oed hynod gymwys. Fodd bynnag, roedd 40% arall o aelwydydd BN(O) o Hong Kong yn rhentu yn y sector preifat. Mae hyn yn amlygu'r angen am well cefnogaeth, gwybodaeth a chyfeirio at gyngor morgais dibynadwy a chanllawiau rhentu o ansawdd uchel yn cynnwys adnoddau [Rhentu Doeth Cymru](#). Nid oes gan Ddeiliaid Fisa BN(O) Hong Kong hawl i gyllid cyhoeddus ac ni allant gael mynediad at dai cymdeithasol oni bai eu bod yn gwneud cais i Newid Amodau a bod y cais hwnnw'n cael ei gymeradwyo. Dylai gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaeth fod yn wyliadwrus o'r posibilrwydd efallai y bydd rhai aelwydydd BN(O) angen gwneud cais am newidiadau o'r fath wrth i arbedion leihau dros amser, gan gynyddu eu risg o dlodi a digartrefedd.

Sgiliau a Dosbarthiadau Iaith

Er i'r rhan fwyaf o ymfudwyr BN(O) Hong Kong yng Nghymru nodi nad oeddent yn profi unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio Saesneg ar gyfer tasgau bob dydd, roedd lleiafrif sylweddol yn wynebu heriau mewn perthynas â siarad, darllen a llenwi ffurflenni, yn enwedig ymhlith y grwpiau oedran hŷn, y rhai economaidd anweithgar a'r rhai di-waith. Nodwyd gan yr holl ymatebwyr a oedd yn ei chael yn anodd gyda siarad Saesneg bob dydd, eu bod yn profi anawsterau wrth siarad ar y ffôn, gan amlygu sut y gall rhai cyd-destunau cyfathrebu megis galwadau ffôn, waethygu rhwystrau iaith. Er mwyn gwella eu Saesneg, roedd cyfranogwyr yn dibynnu ar gyrsiau ffurfiol ac adnoddau dysgu digidol yn

bennaf, gyda grwpiau sgwrsio yn cael eu defnyddio'n llai aml. Nododd nifer fach nad oeddent yn cymryd unrhyw gamau i wella eu Saesneg, gan nodi rhesymau megis diffyg angen, dim digon o ddarpariaeth leol neu ddiffyg hyder. Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu tystiolaeth ehangach ar integreiddio mudwyr yng Nghymru. Mae Fframwaith Integreiddio Mudwyr Llywodraeth Cymru yn pwysleisio bod sgiliau iaith, yn enwedig Saesneg, yn sylfaenol ar gyfer gallu mudwyr i gymryd rhan a chyflawni canlyniadau cyfartal (Llywodraeth Cymru 2024).

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar Bapur Gwyn Mewnfudo, sy'n cynnwys cynnig i godi gofyniad iaith Saesneg Caniatâd Amhenodol i Aros, o lefel B1 i lefel B2. Byddai bwrw ymlaen â'r newid hwn yn cynyddu'r gofynion ieithyddol ar ymfudwyr BN(O) yn sylweddol, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn hŷn, yn llai cymwys, ac wedi ymddeol. Felly, bydd angen cefnogaeth sylweddol i ddysgu iaith ar draws y garfan ac yn enwedig ar gyfer y rhai hynny sy'n profi anawsterau wrth siarad Saesneg mewn sefyllfaoedd bob dydd, darllen ac ysgrifennu. Mae'r rhain i gyd yn amlygu'r angen i wella mynediad at ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) drwy gynyddu darpariaeth leol a lleihau rhwystrau'n gysylltiedig ag argaeledd dosbarthiadau, cost a chludiant, gan ehangu cymorth iaith penodol i gyd-destun yn cynnwys sgiliau cyfathrebu dros y ffôn a chefnogaeth gyda llenwi ffurflenni, a datblygu manau dysgu cynhwysol, anffurfiol a heb lawer o bwysau.

Er bod Saesneg yn parhau i fod yn hanfodol ar gyfer integreiddio swyddogaethol, mae'r Gymraeg yn cynnig llwybrau ychwanegol at berthyn, hunaniaeth a chydlyniant cymunedol. Mae mentrau megis *Llwybrau at y Gymraeg ar gyfer Mudwyr Rhyngwladol* yn amlygu ymdrechion parhaus i ehangu ymwybyddiaeth a mynediad at addysg iaith Gymraeg ar gyfer newydd-ddyfodiaid (Higham 2024). Gall cryfhau cefnogaeth polisi ar gyfer y ddwy iaith (e.e. integreiddio'r Gymraeg gyda darpariaeth ESOL) drwy ddarpariaeth hygyrch, adnabyddus, sy'n magu hyder wella canlyniadau integreiddio a sicrhau bod ymfudwyr yn cael eu cefnogi o fewn tirlun dwyieithog unigryw Cymru. Gall gosod y Gymraeg fel ased diwylliannol a rennir hefyd atgyfnerthu cynhwysiant a pherthyn sy'n gyson ag ethos "Cenedl Noddfa" Cymru.

Statws a Phryderon Iechyd

Nid yn unig yw pobl o Hong Kong yn hunan adrodd iechyd cyffredinol gwaeth ar y cyfan na'r boblogaeth ehangach yng Nghymru a Lloegr, ond mae carfanau iau ac unigolion heb gymwysterau hefyd yn arddangos mwy o fregusrwydd emosiynol, yn cynnwys lefelau uwch o orbyrder, iselder a PTSD. Gall y patrwm hwn adlewyrchu straen ac ansicrwydd yn gysylltiedig â mudo, heriau ymgartrefu, cyflogaeth a phwysau tai, diffyg parhad systemau gofal iechyd blaenorol, ac yn fwy na dim, effeithiau seicolegol parhaol o ddigwyddiadau gwleidyddol 2019-2020. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu'r angen am ddylunio polisi penodol i oedran, gan flaenoriaethu iechyd meddwl ieuencid o fewn gwasanaethau integredig. Gallai mesurau o'r fath gynnwys sgrinio priodol i oedran, rhaglenni ymyrraeth gynnwys wedi'u teilwra tuag at straen oedolion ifanc, cyfeiriadau clir, yn rhydd o unrhyw

stigma, at gefnogaeth iechyd meddwl y GIG, ehangu gwasanaethau cwnsela mewn sefydliadau Addysg Bellach / Addysg Uwch, a chefnogaeth hybrid neu ar-lein sy'n sensitif o ran diwylliant ac wedi'i dylunio ar gyfer ymfudwyr iau.

Mynediad at Wasanaethau

Er i'r rhan fwyaf o'r ymfudwyr BN(O) nodi nad oeddent yn profi unrhyw anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau hanfodol, nodwyd gan leiafrif sylweddol rai rhwystrau penodol a oedd yn cyfyngu eu gallu i gael y gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen. Mae'r rhain yn amrywio o sicrhau apwyntiadau, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus neu ofal sylfaenol, gwasanaethau cludiant cyhoeddus prin neu annibynadwy yn amharu ar eu gallu i gyrraedd gwasanaethau, dim mynediad at gar, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr, gan gyfyngu eu symudedd. Er bod y cyfrannau hyn yn gymharol fach, maent yn amlygu heriau hygyrchedd strwythurol a allai gael effaith anghymesur ar ymfudwyr sydd newydd ymgartrefu yma, yn enwedig y rhai hynny'n byw y tu allan i ganolfannau dinesig mawr. Mae'r anawsterau hyn a nodwyd yn awgrymu bod rhai ymfudwyr BN(O) yn wynebu cyfyngiadau o ran symudedd a mynediad at wasanaethau a all amharu ar integreiddio'n gynnar. Byddai gwella dibynadwyedd cludiant, cryfhau llwybrau digidol ac amlieithog ar gyfer trefnu apwyntiadau, a rhoi cyfeiriad mwy clir ar lywio gwasanaethau cyhoeddus Cymru o gymorth i sicrhau mynediad mwy teg. Mae mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol yn cyd-fynd ag ymrwymïadau ehangach Cymru i gynhwysiant ac yn cefnogi ymgartrefu mwy hwylus ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

Ofn Trosedd

Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod rhai grwpiau, yn enwedig merched, oedolion iau, ymatebwyr hynod addysgedig, a'r rhai hynny sy'n weithgar yn economaidd, yn profi lefelau uwch o bryder am drosedd. Er nad yw'r pryderon hyn o reidrwydd yn adlewyrchu risg o ddioddef trosedd, gallant effeithio ar les, symudedd, cyfranogiad cymunedol ac ymddiriedaeth mewn mannau cyhoeddus. Mae hyn yn tynnu sylw at werth cryfhau cyfathrebu am ddiogelwch cymunedol, gwella gwelededd plismona lleol ac ymgysylltu â chymdogaeth, a sicrhau bod ymfudwyr newydd yn derbyn gwybodaeth glir am lefelau trosedd, prosesau adrodd, a gwasanaethau cefnogi lleol. Oherwydd gall ofn trosedd leihau integreiddio cymdeithasol hyd yn oed pan mae lefelau trosedd yn isel, gall sicrwydd wedi'i dargedu, negeseuon am ddiogelwch cymunedol, ac ymgysylltu â grwpiau o fudwyr chwarae rhan bwysig wrth fagu hyder, cydlyniant ac ymdeimlad o berthyn ar draws cymunedau Cymru. Gall Timau Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Timau Diogelwch Cymunedol a Thimau Plismona Cymdogaethau adeiladu ar gysylltiadau gyda'r gymuned a chyfeirio at gefnogaeth, er enghraifft [Canolfan Cymorth Casineb Cymru](#).

6 Cyfeiriadau

Babbie, E. (2021) *The Practice of Social Research*. 15fed argraffiad. Boston: Cengage.

Blaikie, N. (2010) *Designing Social Research*. 2^{il} argraffiad. Caergrawnt: Polity Press.

Baykara-Krumme, H. & Platt, L. (2016) 'Life satisfaction of migrants, stayers and returnees: reaping the fruits of migration in old age?', *Ageing & Society*, 38(4), tud. 721–745.

British Future (2023) *From HK to UK: Hong Kongers and their New Lives in Britain*.

Chan, T.W. (2025) 'Hong Kong BN(O) migrants in the UK', *Understanding Society Scientific Conference 2025*. Ar gael yn:

<https://understandingsocietyconference.co.uk/paper/hong-kong-bno-migrants-in-the-uk/>

Cheung, S.Y. & Foster, B. (2023) *Dechrau Bywyd Newydd yng Nghymru: Adroddiad Ymchwil Arolwg Croeso i Ddeiliaid Fisa Gwladolion Prydeinig Tramor Hong Kong*. Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru

Chiswick, B.R. & Miller, P.W. (2009) 'The international transferability of immigrants' human capital', *Economics of Education Review*, 28(2), tud. 162–169.

Couper, M.P. (2000) Web Surveys: A Review of Issues and Approaches, *Public Opinion Quarterly*, 64 (4): 464-494.

Dustmann, C. and Fabbri, F. (2003) Language proficiency and labour market performance of immigrants in the UK. *The Economic Journal*, 113 (489): 695-717.

Dustmann, C., Glitz, A. & Vogel, T. (2010) Employment, Wages, and the Economic Cycle, Differences between Immigrants and Natives, *European Economic Review*, 54(1): 1-17.

Eppsteiner, H.S. and Hagan, J.M. (2016) 'Religion as psychological, spiritual, and social support in the migration undertaking', yn Saunders, J.B., Fiddian-Qasmiyeh, E. a Snyder, S. (gol.) *Intersections of Religion and Migration*. Efrog Newydd: Palgrave Macmillan, tud. 49–70.

Engzell, P. & Ichou, M. (2020) Status loss: The burden of positively selected immigrants, *International Migration Review*, 54 (2): 471-495.

Etikan, I., Musa, S.A. and Alkassim, R.S. (2016) Comparison of Convenience Sampling and Purposive Sampling, *American Journal of Theoretical and Applied Statistics*, 5 (1): 1-4.

Farrall, S., Jackson, J. and Gray E. (2009) *Social Order and the Fear of Crime in Contemporary Times*. Rhydychen: Oxford University Press.

Ferrara, A., Luthra, R. & Platt, L. (2025) 'Are immigrants healthier than non-migrants? And do they stay healthy?', *LSE Inequalities Blog*, 15 Ebrill. Ar gael yn: <https://blogs.lse.ac.uk/inequalities/2025/04/15/are-immigrants-healthier-than-non-migrants/>

Finder UK (2025) *Home Ownership in the UK: Key Statistics for 2024*. Diweddarwyd ar 27 Chwefror 2025. Ar gael yn: <https://www.finder.com/uk/mortgages/home-ownership-statistics>

Friedberg, R.M. (2000) 'You can't take it with you? Immigrant assimilation and the portability of human capital', *Journal of Labor Economics*, 18(2), tud. 221–251.

Garrington, C.A. (2025) 'Four things the ONS Longitudinal Study has taught us about immigration and health', *UCL Linking Our Lives Blog*, 5 Mawrth. Ar gael yn: <https://blogs.ucl.ac.uk/linking-our-lives/2025/03/05/four-things-the-ons-longitudinal-study-has-taught-us-about-immigration-and-health/>

Green, A.E., Atfield, G. and Purcell, K. (2015) Fuelling displacement and labour market segmentation in low-skilled jobs? Insights from a local study of migrant and student employment. *Environment and Planning A: Economy and Space*, 48 (3): 577-593.

Gittell, R. & Vidal, A. (1998) *Community Organizing: Building Social Capital as a Development Strategy*. Thousand Oaks, CA: Sage.

Hale, C. (1996) 'Fear of crime: A review of the literature', *International Review of Victimology*, 4(2), tud. 79–150.

Heath, A. & Cheung, S.Y. (2007) *Unequal Chances: Ethnic Minorities in Western Labour Markets*. Rhydychen: Oxford University Press.

Heath, A. & Li, Y. (2008) 'Period, life-cycle and generational effects on ethnic minority success in the British labour market', *Kölner Zeitschrift für Soziologie und Sozialpsychologie*, 48, tud. 277–306.

Higham, G. (2024) *Llwybrau at y Gymraeg ar gyfer Mudwyr Rhyngwladol*. Prifysgol Abertawe. Ar gael yn: <https://www.swansea.ac.uk/humanities-and-socialsciences/research/education-network/pathways-to-welsh-language-for-international-migrants/>

Hollway, W. & Jefferson, T. (1997) 'The risk society in an age of anxiety: Situating fear of crime', *British Journal of Sociology*, 48(2), tud. 255–266.

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2025) *UK disability statistics: Prevalence and life experiences*. Yn seiliedig ar Arolwg o Adnoddau Teulu 2023/24 yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ar gael yn: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9602/>

Y Swyddfa Gartref (2025) *Ystadegau'r system fewnfudo, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025*. Llundain: Y Swyddfa Gartref. Cyhoeddwyd ar 22 Mai 2025, diweddarwyd ar 25 Mehefin 2025. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-system-statistics-year-ending-march-2025>

Prifysgol Hong Kong Shue Yan (2025). *The mental health and resilience of four generations of Hong Kong citizens: Responses to adversity and trauma*. Available at: <https://newsletter.hksyu.edu/en/hong-kongs-first-four-generation-mental-health-study-reveals-severe-anxiety-and-depression-among-gen-z/>

Jackson, J. (2009) 'A psychological perspective on vulnerability in the fear of crime', *Psychology, Crime & Law*, 15(4), tud. 365–390.

Kam, C.Y.P. (2020) *Chinese, Hong Kong Chinese, Hongkonger? The Construction of National Identity in light of the Anti-MNE Movement and the Umbrella Movement in Post-1997 Hong Kong*. Traethawd Ymchwil PhD, Prifysgol Manceinion.

Killias, M. & Clerici, C. (2000) 'Different measures of vulnerability in their relation to different dimensions of fear of crime', *British Journal of Criminology*, 40(3), tud. 437–450.

Lee, M. (2011) *Inventing Fear of Crime: Criminology and the Politics of Anxiety*. Cullompton: Willan.

Lewis, H., Higham, G. & Chick, M. (2023) 'Sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i annog ymfudwyr i deimlo'n gartrefol'. *The Conversation / Prifysgol Aberystwyth*. Ar gael yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/interpol/news/top-stories/title-267609-cy.html>

Lin, J.C. (2025) 'A New Era of National Identity Education: Trends and Political Rationales in Hong Kong', *Journal of Modern Educational Research*, 4, tud. 1–13.

Migration Observatory (2020) *The health of migrants in the UK*. Prifysgol Rhydychen. Ar gael yn: <https://migrationobservatory.ox.ac.uk/resources/briefings/the-health-of-migrants-in-the-uk/>

Moore, S. and Shepherd, J. (2007) The elements and prevalence of fear. *British Journal of Criminology*, 47 (1): 154-162.

Pain, R. (2001) 'Gender, race, age and fear in the city', *Urban Studies*, 38(5–6), tud. 899–913.

Ni, M.Y., Yao, X.I., Leung, K.S.M., et al. (2020). Depression and post-traumatic stress during major social unrest in Hong Kong: a 10-year prospective cohort study. *The Lancet*, 395(10220), 273–284.

OECD (2020) *International Migration Outlook 2020*. Paris: OECD Publishing.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2002) *Y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru, yn ôl gwlad enedigol fanwl ac ardal, Cyfrifiad 2021*. StatsCymru. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Census/2021/country-of-birth-detailed>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *SOC 2020 Volume 3: The National Statistics Socio-economic Classification (NS-SEC rebased on the SOC 2020)*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/standardoccupationalclassificationsoc/soc2020/soc2020volume3thenationalstatistics socioeconomicclassificationnssecrebasedonthesoc2020>.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *Iechyd cyffredinol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021*. Cyhoeddwyd 24 Chwefror 2023. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/articles/generalhealthbyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021>

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *Anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021>

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) *Trosolwg o'r farchnad lafur, Y DU: Awst 2025*.

Putnam, R. D. (2000) *Bowling Alone: The Collapse and Revival of American Community*. Efrog Newydd: Simon & Schuster.

Rolfe, H. (2026) Pa wersydd gellir eu tynnu o gynllun fisa BN(O) Hong Kong ar gyfer cefnogaeth y DU i fewnfudwyr newydd? Y DU mewn Ewrop sy'n Newid. Ar gael yn: <https://ukandeu.ac.uk/lessons-from-the-hong-kong-bno-visa-scheme/>

Sarli, A. & Mezzetti, G. (2020), Religion and Integration: Issues from International Literature, in Zanfrini, L. (gol.) *Migrants and Religion: Paths, Issues, and Lenses*, Brill, Leiden & Boston.

Sharif, N. & Wenjin, C. (2024) *Promoting Mental Health Equity: Enhancing Ethnic Minority Mental Health Literacy and Help-Seeking in Hong Kong*. Public Policy Bulletin, Rhifyn 9. Prifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Hong Kong. Ar gael yn: https://ppol.hkust.edu.hk/sites/default/files/Bulletin_9th_Issue_June_2024_online_28May2024_v10.pdf

Shaw, A. (2025) 'Addewid Hong Kong y DU dan Fygythiad', Cylchgronau Busnes a Economi Rhyngwladol, 18 Medi. Ar gael yn: <https://gbej.org/uks-hong-kong-promise-under-threat/>

StatsCymru (2002) *Y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru, yn ôl gwlad enedigol fanwl ac ardal, Cyfrifiad 2021*. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Cronfa ddata StatsCymru.

StatsCymru. (2025) *Hawlio budd-daliadau yn ôl ardaloedd lleol a mis (wedi'i addasu'n dymhorol)*. Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd Ionawr 2026. <https://statswales.gov.wales>

UCL, King's College London & University of Oxford (2023–2026) *Hong Kong BN(O) Migrants Panel Survey*. Astudiaeth hydredol a ariannwyd gan ESRC. <https://www.ucl.ac.uk/ioe/departments-and-centres/quantitative-social-science/research/hong-kong-bno-migrants-panel-survey>

Verian (2025) *Exploring the Experiences of Hong Kongers, including BN(O)s, Living in the UK*. Ymchwil a Dadansoddiad Llywodraeth y DU.

Warr, M. (2000) 'Fear of crime in the United States: Avenues for research and policy', *Criminal Justice*, 4, tud. 451–489.

Llywodraeth Cymru (2024) *Y Fframwaith Integreiddio Mudwyr*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/migrant-integration-framework-html>

Wong, B. & Kong, C. (2025) Optimeiddio'r "Fudir Model": Gwella Cymorth Cymdeithasol a Economaidd ar gyfer Mewnflwch BN(O) o Hong Kong. Cylchlythyr Polisi Cyhoeddus Ysgol Economeg Llundain. Ar gael yn: <https://psj.lse.ac.uk/articles/180/files/682f63b1aa15f.pdf>

Yew, C.P. and Kwong, K.M. (2014) 'Hong Kong Identity on the Rise', *Asian Survey*, 54(6), tud. 1088–1112.

7 Atodiadau

Tabl A1 Iechyd yn gyffredinol

		Rhagorol	Da iawn	Da	Gwedd ol	Gwael
Rhyw	Gwryw	11	18	39	28	4
	Benyw	0	20	28	43	8
Oedran	16-24	0	30	30	40	0
	25-44	7	18	36	27	11
	45-64	3	16	30	43	5
	65+	4	18	33	37	7
Statws Priodasol	Sengl, erioed wedi priodi	2	28	30	33	7
	Priod neu bartneriaeth sifil	2	28	30	33	7
	Wedi gwahanu / Wedi ysgaru / Gweddw	0	0	25	50	25
Addysg	Gradd neu uwch	4	25	42	24	6
	Diploma addysgu / nysio	10	10	30	40	10
	Safon Uwch / cyfwerth	8	8	8	77	0
	TGAU / cyfwerth	0	13	13	69	6
	Dim cymwysterau / dim o'r uchod	0	0	0	40	20
Gweithgaredd Economaid	Gweithredol	6	20	34	33	5
	Anweithredol	0	16	29	44	9
Diweithdra	Mewn gwaith cyflogedig	8	21	38	29	4
	Di-waith	6	20	34	33	5

Tabl A2 Wedi cyflawni llai oherwydd iechyd corfforol

		Drwy'r amser	Y rhan fwyaf o'r amser	Weithiau	Ychydig o'r amser	Ddim o gwbl
	Gwryw	3	5	7	37	47
Rhyw	Benyw	1	4	21	37	34
	16-24	0	0	30	50	20
	25-44	2	9	14	39	36
	45-64	2	2	14	32	47
Oedran	65+	0	0	0	50	50
	Sengl, erioed wedi priodi	2	5	16	40	37
	Priod / Partneriaeth Sifil	1	3	14	36	42
Statws Priodasol	Wedi gwahanu / Wedi ysgaru / Gweddw	0	25	0	25	50
	Gradd neu uwch Diploma addysgu / nyrsio	2	5	16	38	39
	Safon Uwch / cyfwerth	0	0	10	35	55
	TGAU / cyfwerth	0	20	20	0	0
Addysg	Dim cymwysterau / dim o'r uchod	1	4	15	37	41
Gweithgaredd	Gweithredol	1	5	14	38	41
Economaidd	Anweithredol	2	2	16	36	40
	Mewn gwaith cyflogedig	0	5	14	39	41
Diweithdra	Di-waith	7	7	14	38	41

Tabl A3 Problemau Emosiynol a gweithgareddau dyddiol yn ôl demograffeg

		Drwy'r amser	Y rhan fwyaf o'r amser	Weithiau	Ychydig o'r amser	Ddim o gwbl
Rhyw	Gwryw	2	4	25	32	37
	Benyw	1	9	17	36	36
Oedran	16-24	0	20	40	30	10
	25-44	4	11	21	36	29
	45-64	0	2	17	30	49
	65+	0	0	17	50	33
	Sengl	2	14	19	37	28
Statws Priodasol	Priod	1	3	21	31	42
	Wedi gwahanu / Wedi ysgaru /					
	Gweddw	0	0	25	50	25
Addysg	Gradd neu uwch	2	8	17	30	43
	Diploma	0	0	25	55	20
	Safon Uwch	0	0	15	46	39
	TGAU	0	6	31	25	38
	Dim cymwysterau neu ddim o'r uchdo	0	20	40	0	0
	Gweithgaredd Economaid	Gweithredol	2	9	23	30
	Anweithredol	0	2	15	40	40
Diweithdra	Mewn gwaith cyflogedig	1	6	20	34	37
	Di-waith	2	9	23	30	36

Tabl A4: Ail leoliad yn y DU

Dinas	N	%
Caerdydd	20	83.3
Abertawe	1	4.2
Casnewydd	1	4.2
Bryste	1	4.2
Llundain	1	4.2
Cyfanswm	24	

Tabl A5: Bwriadu aros yn lleoliad 2

	N	%
Ydw	23	85.2
Nac ydw	4	14.8
Cyfanswm	27	100

Tabl A6 Lleoliad 3 yn y DU

Lleoliad	N	%
Caerdydd	77	86.5
Casnewydd	5	5.6
Abertawe	5	5.6
Llundain	1	1.1